



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Defnydd Llywodraeth Cymru o offer polisi i brif ffrydio cydraddoldeb

Findlay Smith

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mehefin 2021

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r dulliau o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch beth sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a darparu tystiolaeth bresennol a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu dulliau newydd o feddwl ynghylch sut i fynd i'r afael â'r heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cael mynediad at a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i hysbysu a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol;
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus, i ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth hysbysu a gwella'r dulliau o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilwyr i ymgysylltu mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

Am wybodaeth bellach ewch i'n gwefan yn www.wcppp.org.uk

Noddwyr Craidd



Cafodd **Prifysgol Caerdydd** ei sefydlu ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf ac arddangos ei hymrwymiad i Gaerdydd hefyd.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i sicrhau y gall pob cyngor gyfrannu i'r eithaf a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Llywodraeth Cymru o offer polisi i brif ffrydio cydraddoldeb

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Cefndir Polisi ac Adolygiad o Lenyddiaeth	6
Beth yw Prif ffrydio?	6
Beth yw Offer Polisi?	7
Beth yw nodweddion llunio polisiau yng Nghymru?	9
Offer Polisi 1: Offer Cyfathrebu	11
Darpariaethau Cyfansoddiadol a Chyfreithiol	11
Strategaethau, Cynlluniau ac Amcanion	15
Offer Polisi 2: Offer Sefydliadol	20
Pwyllgorau	21
Tirau ac Unedau Prif ffrydio	24
Hyrwyddwyr ac Arweinwyr Cydraddoldeb	30
Offer Polisi 3: Offer Gweithdrefnol	33
Gwerthuso ac Asesu Polisi	33
Cyllidebu	38
Ymgynghori	40
Casgliadau ac Argymhellion	47
Awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol	47
Cyfeiriadau	50

Crynodeb

- Mae'r adroddiad yn tynnu ar ac yn cyfuno cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, ynghyd â llenyddiaeth lwyd ac academiaidd berthnasol. Cafodd hyn ei ategu gyda data a gasglwyd o bedwar cyfweiliad elitaidd gyda chyfranogwyr gyda phrofiad ymarferydd, neu wybodaeth am brif ffrydio cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru.
 - Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gweledigaeth glir ar gyfer cydraddoldeb yng Nghymru, nac eglurder ynghylch sut i gymhwyso egwyddorion prif ffrydio cydraddoldeb yn ymarferol.
 - Mae diffyg strategaeth brif ffrydio drosfwaol wedi arwain at bocedi o arfer da heb gyfeiriad strategol clir, ac ychydig iawn o eglurder ynghylch sut i gymhwyso egwyddorion prif ffrydio yn ymarferol. Mae hyn yn cynnwys y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, nad ydynt wedi darparu gweithrediad clir o brif ffrydio.
 - Mae effeithiolrwydd Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn cael ei gyfyngu gan nifer o rwysrau, gan gynnwys diffyg perchnogaeth ar y cyd o faterion cydraddoldeb, gorddibyniaeth ar y tîm sy'n creu ymdeimlad y gallent fod wedi'u llethu â gwaith, nad oes ganddynt adnoddau digonol a bod diffyg eglurder ynglŷn â'i rôl a'i gylch gwaith.
 - Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cyllidebu cydraddoldeb yn llawn eto, er ei bod wedi cymryd rhai camau i gynnwys safbwynt cydraddoldeb yn ei phroses gyllidebu. Dwy enghraifft amlwg yw Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb a'r Asesiad Effaith Strategol Integredig, er bod pryderon ynghylch y graddau y mae'r offer hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar benderfyniadau'r gyllideb.
 - Mae ymdeimlad cyffredinol bod ymgysylltiad Llywodraeth Cymru gyda grwpiau cydraddoldeb wedi gwella, ac mae effaith anghymesur y pandemig COVID-19 ar grwpiau penodol wedi atgyfnerthu pwysigrwydd ymgynghori yn ystod camau datblygu polisi.
- Mae prif ffrydio cydraddoldeb yn golygu bod angen newid mawr i'r sefyllfa bresennol yn nhermau safbwynt ac arfer; gellir gwella'r defnydd o offer cyfathrebu i gyflawni hyn. Felly, dylai Llywodraeth Cymru gyfleu gweledigaeth gyson ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar draws y llywodraeth, yn arbennig o fewn y fframwaith deddfwriaethol ar gydraddoldeb, a dogfennau strategol allweddol, gan gynnwys y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Cyflwyniad

Ers dyddiau cynnar datganoli, mae wedi bod yn ddyletswydd statudol i Lywodraeth Cymru brif ffrydio cyfle cyfartal ym mhob un o'i gweithgareddau. Yn dilyn dau ddegawd o amrywiaeth o ran amlygrwydd ar agenda'r Llywodraeth, mae prif ffrydio cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru wedi profi diddordeb o'r newydd yn y blynnyddoedd diwethaf. Yn 2018, fe ymrwymodd Prif Weinidog y dydd, Carwyn Jones, i wneud Llywodraeth Cymru yn llywodraeth ffeministaidd, a fu'n gatalydd ar gyfer yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol, a arweiniodd at lawer o waith i ymgorffori cydraddoldeb rhywiol ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n deddfu adrannau 1 a 3 Deddf Cydraddoldeb 2010, a elwir hefyd y 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'. Mae hyn yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus, wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol, i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae effaith anghymesur y pandemig COVID-19 ar rai grwpiau wedi atgyfnerthu ymhellach yr angen i ymgorffori cydraddoldeb yn nulliau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y diddordeb o'r newydd, mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r offer polisi a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i brif ffrydio cyfle cyfartal, effeithiolrwydd yr offer hwn a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar eu heffeithiolrwydd. Datblygwyd y diffiniad o'r offer polisi a ddefnyddiwyd gan Jacob et al. (2008) sy'n gwahaniaethu rhwng offer cyfathrebu, sefydliadol a gweithdrefnol.

Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2001, ac roedd yn cyfuno ymchwil desg, gan dynnu ar gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, chwiliad o gronfeydd data academiaidd a llenyddiaeth lwyd ar-lein, gyda thystiolaeth sylfaenol o bedwar cyfweliad elitaidd a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2021.

Rhestr o'r Cyfweleion

Dynodydd	Swydd/Rôl
Cyfweliad A	Hysbysydd Llywodraeth Cymru
Cyfweliad B	Academaidd
Cyfweliad C	Academaidd
Cyfweliad D	Academaidd

Cefndir Polisi ac Adolygiad o Lenyddiaeth

Beth yw Prif ffrydio?

Mae prif ffrydio yn broses o newid polisi a sefydliadol er mwyn ymgorffori mater trawsbynciol i brosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisiau ar draws y llywodraeth. Ymateb traddodiadol y llywodraeth i broblemau polisi yw arbenigo, a darnio (Bouckaert et al., 2010). Fodd bynnag, mae llawer o broblemau cyfoes yn gymhleth, ac yn rhychwantu ffiniau gweinyddol a sectoraidd sefydledig, gan osod galw cynyddol ar y llywodraeth ac ar brosesau llunio polisiau (Head ac Alford, 2015). Mae hyn wedi creu systemau i lywodraethu sy'n gymhleth, wedi'u gosod mewn adrannau ac y nodwyd yn swyddogaethol na allant fynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau hyn.

Mae llywodraethau o amgylch y byd wedi mabwysiadu prif ffrydio fel ymateb. Mae'r cysyniad o brif ffrydio yn fwyaf cysylltiedig â phrif ffrydio rhyw. Mae Gupta (2010: 74) yn nodi bod hyn wedi bod "en vogue" ers Pedwaredd Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ferched yn Beijing ym 1995, gyda Datganiad Beijing yn awgrymu, "governments and other actors should promote an active and visible policy of mainstreaming, a gender perspective into all policies and programmes" (Datganiad Beijing, 1995). Mae dadleuon ynghylch y diffiniad o brif ffrydio rhyw, a cheir archwiliad llawn o'r drafodaeth hon mewn man arall (Daly, 2005). Mae Cyngor Ewrop yn darparu diffiniad a ddyfynnir yn aml o brif ffrydio rhyw:

"(ail) drefnu, gwella, datblygu a gwerthuso prosesau polisi, er mwyn ymgorffori safbwynt cydraddoldeb rhyw ar bob lefel ac ym mhob cam, gan y cyfranogwyr a fyddai fel arfer yn ymwneud â llunio polisiau" (Cyngor Ewrop, 1998: 13)

Mae prif ffrydio wedi'i fabwysiadu mewn meysydd polisi eraill hefyd, yn fwyaf nodedig mewn polisi amgylcheddol (a elwir hefyd yn Integreiddio Polisi Amgylcheddol); addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd; a datblygiad cynaliadwy (Nunan et al., 2012). Mae Dalal-Clayton a Bass (2009: 20) yn diffinio prif ffrydio amgylcheddol fel "the informed inclusion of relevant environmental concerns into the decisions of institutions", sef y sefydliadau sy'n llunio a gweithredu polisiau. Yn gyffredinol, mae'r cysyniad o brif ffrydio yn parhau i fod yn debyg ar draws meysydd polisi, gan gyfeirio at ymgorffori mater polisi trawsbynciol mewn dulliau gwneud penderfyniadau, a

pholisïau ar draws llywodraeth (Yamin, 2005). Gellir deall bod hyn yn cynnwys sawl elfen.

Yn gyntaf, mae prif ffrydio yn galw am ddatblygu a phresenoldeb dealltwriaeth a gweledigaeth a rennir o fater polisi trawsbynciol ar draws llywodraeth. Mae materion polisi 'trawsbynciol', neu 'amhosibl', yn amwys, ac yn anodd eu diffinio. Felly, er mwyn eu hymgorffori'n effeithiol mewn polisïau mae angen i'r cyfranogwyr a'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyn feddu ar rywfaint o ddealltwriaeth a rennir am natur problem, a'i ddatrysiadau posibl. Cyfeirir at hyn gan rai fel delwedd bolisi neu ffrâm bolisi (Mazey, 2000). Mae tystiolaeth yn cyfeirio at allu llywodraeth i lunio ffrâm polisi trosfwaol sy'n gallu diffinio a gweithredu mater polisi trawsbynciol mewn ffordd sy'n hwyluso dealltwriaeth ac ymateb ar y cyd ar draws llywodraeth fel penderfynydd allweddol prif ffrydio llwyddiannus.

Yna, mae'n rhaid ymgorffori'r weledigaeth hon ym mhrosesau llunio penderfyniadau swyddogion llywodraeth. Yn ddelfrydol byddai hyn yn cynnwys dull rhagweithiol, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar draws y meysydd polisi ar sail "logic of addressing a complex problem" (Cejudo a Michel, 2017: 158). Cyfeirir at hyn yn aml fel 'gwyrrddio' neu 'rywio' prosesau llunio polisïau yng nghyd-destun prif ffrydio amgylcheddol a rhyw, yn y drefn honno.

Agwedd bellach o brif ffrydio, sy'n cael ei hanwybyddu yn aml, yw presenoldeb strwythurau sefydliadol cefnogol (Nunan et al., 2012). Mae prif ffrydio yn galw am sefydlu strwythurau a sefydliadau llywodraethu newydd, neu addasu rhai presennol, er mwyn galluogi llywodraeth i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â mater trawsbynciol. Yn hyn o beth, mae prif ffrydio yn cynnwys dulliau sy'n gweithredu'n dda i gydlynu a sicrhau cydlyniant rhwng meysydd polisi ar draws y llywodraeth.

Beth yw Offer Polisi?

Mae offer polisi yn ddulliau, adnoddau a strwythurau sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio gan lywodraeth i weithredu polisïau, a chyflawni amcanion polisi (Howlett, 2019).

Mae Jacob et al. (2008) yn gwahaniaethu rhwng y tri math o offer a ddefnyddir i brif ffrydio: cyfathrebu, sefydliadol a gweithdrefnol. Wedi'u datblygu'n wreiddiol yng nghyd-destun prif ffrydio amgylcheddol, mae hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i astudio prif ffrydio cydraddoldeb.

Mae *Offer cyfathrebu* yn ceisio dylanwadu ar wybyddiaeth ac ymddygiad llunwyr polisi. Nid ydynt yn gofyn am nac yn gorfodi newidiadau i strwythurau presennol, gan ychwanegu at strwythurau sefydliadol yn hytrach na'u disodli. O safbwynt ymarferol, mae newidiadau o'r fath yn aml yn cael eu hystyried y rhai hawsaf i'w cyflwyno, am nad ydynt yn galw am unrhyw newidiadau sylweddol i strwythurau sefydliadol, nac arferion sefydledig. Fodd bynnag, mae yna rywffaint o bryder ynghylch y graddau y gallent ddeddfu newid sylweddol i brosesau llunio polisiâu, ac maent yn cael eu beirniadu yn aml am weithredu ar lefel fwy rhethregol nac ymarferol.

Yr offer cyfathrebu a drafodir yn yr adroddiad hwn yw:

- Darpariaethau cyfansoddiadol;
- Cynlluniau neu strategaethau cenedlaethol.

Mae *offer sefydliadol* yn newid strwythur sefydliadol llywodraeth. Gallent atgyfnerthu rhai elfennau penodol o lywodraeth, creu rhwydweithiau newydd neu ddefnyddio rhai presennol a chreu cyfranogwyr neu gyrff newydd gyda chyfrifoldeb am faterion polisi trawsbynciol. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn fwy na 'sioe', yn gwneud addasiadau sefydliadol, tra bydd prosesau llunio polisiâu yn parhau'n ddigyfnewid.

Yr offer sefydliadol sy'n cael eu cwmpasu yn yr adroddiad hwn yw:

- Pwyllgorau;
- Cyrff neu dimau penodol i gefnogi prif ffrydio;
- Hyrwyddwyr ac arweinwyr adrannol.

Yn ôl Jacob et al., 2008: 28, mae *offer gweithdrefnol* yn "alter the core procedures for decision-making", ac yn ymgorffori mater trawsbynciol i arferion sefydledig ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Yr offer gweithdrefnol a drafodir yn yr adroddiad hwn yw:

- Gwerthuso ac asesu polisi;
- Cyllidebu;
- Ymgynghori ac ymgysylltu.

Beth yw nodweddion llunio polisiau yng Nghymru?

Er mwyn deall y defnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru o'r offer hyn i brif ffrydio cydraddoldeb, mae'n bwysig deall y cyd-destun i ddechrau, yn nhermau'r broses ddatganoledig o lunio polisiau yng Nghymru.

O ystyried ffurf cyfyngedig datganoliad gweithredol a ddisgrifir yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu nifer o gyfyngiadau. Er enghraifft, hyd at 2011, nid oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru heddiw) bwerau deddfu llawn, ac ychydig iawn o reolaeth dros drethiant, hyd at 2019. Bu i Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn ôl y ffaith yn 2001, ac a sefydlwyd yn ffurfiol yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wynebu heriau tebyg. Nid oedd gan y Swyddfa Gymreig draddodiad polisi cryf cyn datganoli, ac roedd yn gweithredu i raddau helaeth fel braich weithredol llywodraeth, yn hytrach nac fel corff a oedd yn llunio polisiau sylweddol. Fe arweiniodd hyn yn aml at ddibyniaeth ar offerynnau polisi (cyfathrebu) 'meddal', er enghraifft arweiniad ac anogaeth. Nododd Greer a Jarman (2008: 184), o dderbyn dewis, bod Llywodraeth Cymru, "typically opt for the carrots they have over the sticks they could use". Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd wedi arwain at dueddiad i lywodraethu drwy strategaethau a datganiadau lefel uchel, yn aml heb y gallu neu'r adnoddau angenrheidiol i'w gweithredu (Connell, 2019). Yng nghyd-destun y cyfyngiadau hyn, dadleuwyd bod model penodol o lunio polisiau wedi dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae hyn yn seiliedig ar draddodiad cadarn o weithio mewn partneriaeth, cynyddu cyfranogiad wrth lunio polisiau a mwy o ymgysylltiad gyda chymdeithas sifil, a system y bwriedir iddi hwyluso cydweithio ar draws sectorau polisi.

Nodweddion Allweddol

- **Gallu Polisi**

Disgrifir yn aml nad oes gan Lywodraeth Cymru allu polisi digonol, sef gallu llywodraeth i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch polisiau; i bennu, a gweithredu cyfeiriad strategol; a gwerthuso dewisiadau amgen i bolisiau; a defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth wrth lunio polisiau (Wu, et al., 2015). Mae hyn yn rhannol oherwydd traddodiad polisi yn y Swyddfa Gymreig, a'r ffaith na fu gan Gymru, yn hanesyddol, lawer o ffynonellau amgen i bolisiau y tu hwnt i'r gwasanaeth sifil (Bishop a Flynn, 2005). Mae hyn wedi golygu bod y broses o ddatganoli mwy o gyfrifoldeb dros bolisiau i Lywodraeth Cymru wedi cyd-fynd â gwaith y Llywodraeth ei hun i ddatblygu ei gallu ei hun, wrth lunio a gweithredu

polisiau. Mae toriadau i gyllidebau hefyd wedi effeithio ar hyn, yng nghyd-destun cyni, sydd wedi arwain at doriadau i'r nifer o staff yn y gwasanaeth sifil.

- **Gallu Dadansoddol**

Mae ymchwil blaenorol hefyd wedi nodi diffyg gallu dadansoddol fel ffactor sydd wedi cyfyngu ar Lywodraeth Cymru. Hynny yw, gallu swyddogion yn y llywodraeth a'r llywodraeth yn ei chyfanrwydd i gynhyrchu data a gwybodaeth ar fater polisi (Howlett, 2015).

- **Cyfyngiadau Cyllidebol**

Mae'r mwyafrif llethol o gyllideb Llywodraeth Cymru yn deillio o grant bloc gan Lywodraeth y DU, a bydd lefel y grant yn cael ei phennu gan benderfyniadau a gymerir am wariant mewn man arall. Fodd bynnag, er mai rheolaeth gyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru dros y swm o arian sydd ar gael i'w ddefnyddio, mae wedi ennill rheolaeth gyfyngedig dros drethiant, a gall arfer disgresiwn o ran sut y caiff yr arian hwn ei wario. Felly, mae cyfle i flaenoriaethu materion penodol nad ydynt wedi derbyn digon o adnoddau o bosibl yn y gorffennol.

- **Rhwydweithiau Polisi**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn gwlad fechan, gyda nifer gymharol fach o sefydliadau llywodraethu, ac mae wedi'i lleoli mewn rhwydwaith dwys o gymunedau polisi agos. Dylai'r agosatrwydd rhwng dinasyddion a phenderfynwyr ei gwneud yn haws iddynt weithio gyda hwy, a dod â chyfranogwyr a sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector at ei gilydd (Keating et al., 2009)

- **Cymhlethdod Sefydliadol**

Ffactor allweddol arall yw'r cymhlethdod sefydliadol cymharol yng Nghymru. Mewn egwyddor, dylai fod yn haws hwyluso gwaith ar draws y llywodraeth yng Nghymru. Mae hyn oherwydd strwythur cymharol fach y gwasanaeth sifil, a'r awgrym nad yw Cymru wedi profi'r un graddau o ddarnio sefydliadol â Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cysylltu â'r ddadl y gallai llywodraethu ar raddfa fach alluogi i lywodraeth drefnu ei hun o amgylch, a gweithio tuag at amcan ar draws y system gyfan yn fwy effeithiol na llywodraeth sy'n gweithredu ar raddfa fwy, gyda mwy o gymhlethdod sefydliadol (Ostrom, 2012). Yn yr un modd, mae De Vries (2000: 198) yn awgrymu, "a flexible, participatory, and problem-solving approach to the enforcement of public sector values can only be realised within small, cohesive government."

Offer Polisi 1: Offer Cyfathrebu

Mae'r adran hon yn trafod defnydd Llywodraeth Cymru o offer cyfathrebu i brif ffrydio cydraddoldeb, ac yn benodol y defnydd o: darpariaethau cyfansoddiadol a chyfreithiol, a strategaethau, cynlluniau ac amcanion y llywodraeth gyfan.

Darpariaethau Cyfansoddiadol a Chyfreithiol

Mae darpariaethau cyfansoddiadol a chyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i weithgarwch llywodraeth, a'r sector cyhoeddus ehangach, i wahanol raddau, fod yn gyson â'r egwyddor o hyrwyddo mater polisi trawsbynciol. Maent yn darparu offer a allai fod yn bwerus ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb, grymuso cyfranogwyr o blaid cydraddoldeb a blaenoriaethu ystyriaeth o gydraddoldeb wrth lunio polisïau a gweithgarwch ehangach y llywodraeth.

Gan ddarparu fframwaith chyfreithiol rhwymol cyffredinol ar gyfer cydraddoldeb, sy'n darparu canllawiau ac arweiniad ar gyfer llunio polisïau, sy'n cefnogi cyflwyniad, ac a allai ddylanwadu ymhellach ar ymdrechion i ddiwygio ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach (Widmer, 2018).

Er gwaethaf eu potensial, mae yna gyfyngiadau amlwg a chlr i effeithiolrwydd darpariaethau cyfansoddiadol a chyfreithiol fel offer ar gyfer prif ffrydio yn ymarferol. Mae darpariaethau o'r fath yn amrywio yn aml yn sylweddol o ran cynnwys a chyfarwyddyd, gyda chwestiynau pwysig yn cael eu codi ynglŷn â'r gallu i'w gorfodi. Felly, efallai eu bod yn cyfrannu rhywfaint at y broses o gyfleu gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb, ond nid ydynt yn llwyddo i gyflawni newid sylweddol o fewn llywodraeth. Mae Runhaar et al. (2020) yn nodi'r feirniadaeth hon, gan awgrymu y gallai gofyniad ffurfiol a darpariaethau chyfreithiol fod yn fwy priodol ar gyfer cynhyrchu allbynnau lefel uchel, yn hytrach nac arwain at ganlyniadau polisi gwell. Mae'r diffyg cysylltiad rhwng ymrwymiad cyfansoddiadol lefel uchel at brif ffrydio, a'i weithredu'n ymarferol, yn amlwg i'w weld. Mae Hankivsky (2013), er enghraifft, yn datgan mai'r prif rwystr at weithredu prif ffrydio rhywiol yw diffyg atebolrwydd, ac ychydig iawn o adnoddau i'w weithredu. Hyd yn oed mewn achosion lle sefydlwyd fframwaith deddfwriaethol, cyfyngedig oedd y graddau yr ymgorfforwyd yr ystyriaeth o gydraddoldeb ar draws y llywodraeth, ac wrth lunio polisïau.

Darpariaethau Cyfansoddiadol a Chyfreithiol yng Nghymru

Mae'r gwaith paratoadol cyfansoddiadol ar gyfer prif ffrydio yng Nghymru yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 120 yn datgan:

“Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb”.

Roedd yn ofynnol i'r Cynulliad gynhyrchu datganiad o drefniadau a wnaed yn unol â'r ddeddf statudol ac asesiad o'u heffeithiolrwydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Roedd y ddyletswydd hon yn unigryw ymhlith y deddfwriaethau datganoli, gan fabwysiadu gweledigaeth hollgynhwysol o gyfle cyfartal i bawb (Lambert, 1999).

Roedd y ddyletswydd hon yn cadarnhau statws cydraddoldeb yn y Cynulliad newydd, gan godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb mewn gwasanaeth sifil nad oedd ganddynt ddiddordeb na gwybodaeth amdano, a rhoi blaenoriaeth o'r newydd i gydraddoldeb yn y llywodraeth (Rees, 2002). Ailadroddodd Chaney (2005: 22) yn ddiweddarach bod y ddyletswydd hon yn cynrychioli mynd i'r afael â chyfle cyfartal ar lefel Cymru llywodraeth am y tro cyntaf. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ail-ddatgan yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a chafodd y ddyletswydd statudol ei throsglwyddo i weinidogion Llywodraeth Cymru.

O ran effaith y gofyniad statudol hwn ar brif ffrydio cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru, mae'r dystiolaeth a gasglwyd o gyfweiliadau, a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, yn cyflwyno darlun cymharol gymysg, ac er bod y ddyletswydd yn cynrychioli cydnabyddiaeth sefydliadol yn ffurfiol ac yn hybu cydraddoldeb awgrymwyd bod yr effaith ymarferol wedi'i chyfyngu gan nifer o ffactorau.

Mae cydraddoldeb a phrif ffrydio cydraddoldeb yn gysyniadau cymhleth ac mae'n bosibl eu dehongli mewn sawl ffordd. Mae amwysedd cysyniadol yn cyflwyno anawsterau ymarferol wrth weithredu'r 'ddyletswydd brif ffrydio'. Roedd pryderon nad oedd y ddyletswydd yn cael ei chydabod na'i deall yn eang y tu hwnt i gyfranogwyr a grwpiau arbenigol, ac nad oedd prif ffrydio cydraddoldeb yn derbyn digon o ddylanwad y tu hwnt i grwpiau a chyfranogwyr cydraddoldeb penodol.

“Y tu hwnt i arbenigwyr o fewn cymdeithas sifil sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb, nid yw'r ymwybyddiaeth honno wedi bodoli. Pe byddai wedi bod mwy o graffu beirniadol a

chyhoeddusrwydd, ond efallai y byddai mwy o gynnydd wedi'i wneud ar gam cynharach ” (Cyfweliad D).

Roedd yr amwysedd hwn hefyd yn amlwg yn y llywodraeth, gan arwain at amrywiadau rhwng meysydd polisi o ran dealltwriaeth a gweithrediad:

“Roedd yna rywfaint o ddealltwriaeth. Ond yn amlwg, yn nhermau'r Gwasanaeth Sifil, yna roedd hynny'n her iddyn nhw, oherwydd roedd yn ffordd wahanol o wneud pethau” (Cyfweliad A).

Hefyd, gan adlewyrchu ar bryderon Hanvinsky (2013) a Runhaar et al. (2020), cwestiynwyd y graddau y gellir gorfodi'r ddyletswydd statudol yn ymarferol:

“Y dull gorfodi oedd adolygiad barnwrol, sy'n ddrud ac ansicr ac yn rhwystr mawr. Ac os ydych chi'n sefydliad cydraddoldeb y trydydd sector, nid oes gennych y gyllideb, nid ydych yn mynd i fentro ffioedd cyfreithwyr a'r posibilrwydd y dyfernir costau yn eich erbyn i herio'r llywodraeth. Felly, rwy'n credu bod ganddo ddull gorfodi gwallus o fewn y statud datganoli” (Cyfweliad D).

Fe ychwanegodd Deddf Cydraddoldeb 2010 at y fframwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r agenda gydraddoldeb yng Nghymru. Roedd yn disodli deddfwriaeth cydraddoldeb unigol blaenorol ar hil, rhyw ac anabledd a rheoliadau presennol ar grefydd a chred, cyfeiriadedd rhyw ac oedran. Roedd y Ddeddf yn cydnabod naw nodwedd warchodedig: hil, anabledd, rhyw, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ail-bennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas neu bartneriaeth sifil. Roedd Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2011, yn amlinellu dyletswydd unigol ar gydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, sef Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth gyflawni eu gweithgareddau, roi sylw dyledus i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo cyfle cyfartal a datblygu cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu. Rhoddodd Adran 153(2) Deddf Cydraddoldeb 2010 yr awdurdod i Weinidogion Cymru osod dyletswyddau penodol, gyda'r bwriad i helpu awdurdodau cyhoeddus i gyflawni dyletswydd gyffredinol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a elwir hefyd yn Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth weithredu fel endid unigol, ymhlith gofynion eraill: bennu amcanion cydraddoldeb, cyhoeddi ac adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sicrhau ymgysylltiad â grwpiau gwarchodedig, asesu effeithiau polisiâu

newydd, drwy ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n deddfu Adrannau 1 a 3 Deddf Cydraddoldeb 2010, a elwir hefyd yn 'ddyletswydd economaidd gymdeithasol'. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 31^{ain} Mawrth 2021, ac roedd yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus, i roi sylw dyledus, wrth wneud penderfyniadau strategol, i'r angen i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau, sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Er y gellir ystyried bod cyflwyniad Deddf Cydraddoldeb 2010, a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru fel cam cadarnhaol mewn ystyr ehangach, mae rhywfaint o ansicrwydd yn bodoli ynghylch eu heffeithiolrwydd wrth gyfleu natur gymhleth prif ffrydio cydraddoldeb i gynulleidfa fwy cyffredinol:

“Rwy’n credu fod Rheoliadau Cydraddoldeb Cymru, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn gam ymlaen, maent yn fwy pwrpasol i faterion a sefyllfaoedd yng Nghymru. Ond eto, mae’n bwnc arbenigol, mewn ffordd, ac mae ymwybyddiaeth o’r rhain yn isel iawn y tu hwnt i gylchoedd arbenigol” (Cyfweiliad D).

Pwynt arall i'w ystyried yw'r fframwaith cyfreithiol ehangach y mae prif ffrydio cydraddoldeb yn rhan ohono, yn arbennig yn sgil deddfu'r ddeddfwriaeth economaidd-gymdeithasol. Mae tair agwedd gysylltiedig yma i'w trafod. Y cyntaf yw anghysondeb y fframwaith cyfreithiol presennol ynghylch cydraddoldeb. Mae yna fframwaith deddfwriaethol ehangach yn bodoli yng Nghymru a ddylai, mewn egwyddor, fod yn gydnaws â gweledigaeth o gydraddoldeb yng Nghymru ac a ddylai weithio gyda'r weledigaeth honno a chefnogi prif ffrydio. Yn ogystal â'r ddyletswydd brif ffrydio, mae'r fframwaith ehangach hwn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru, y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Trafodwyd hyn yn helaeth mewn adroddiad gan y Gweithgor Llesiant a Chydraddoldeb (Parker, 2019), a'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol diweddar (Chwarae Teg, 2019). Roedd y ddau yn nodi nad yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn darparu gweledigaeth gyson o gydraddoldeb yng Nghymru, a bod hyn yn cael effaith niweidiol ar yr ymdrechion i brif ffrydio.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r graddau y gellir gwella neu alinio'r fframwaith hwn, er mwyn cael effaith sylweddol ar brif ffrydio cydraddoldeb a chanlyniadau polisi. Efallai nad yw dyletswyddau statudol, hyd yn oed pan fyddant wedi'u nodi'n glir a'u deall ymhlith llunwyr polisiâu, yn ddigon manwl i gyflawni'r nodau a ddymunir. Mae hyn yn ddibynnol ar gynnwys a gweledigaeth y dyletswyddau penodol eu hunain. Mynegwyd hyn yn glir gan gyfwelai wrth holi am y posibilrwydd o alinio'r ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn gwella ymdrechion prif ffrydio:

“Nid wyf yn credu bod alinio'r ddeddfwriaeth, neu reoliadau, neu'r camau sy'n sail i'r rheoliadau y mae angen i chi eu cymryd i gyflawni gofynion statudol, nid yw'r un peth â phennu gweledigaeth ac yna defnyddio'r cerrig camu hynny i gyrraedd lle'r ydych chi am fynd. Rwy'n credu bod mwy o ymwybyddiaeth bod gennym lawer o ddeddfwriaethau a rheoliadau gwych, ond ni allwch gyflawni'r prosesau hynny heb wneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol”
(Cyfweliad B).

Mae'r trydydd mater yn ymwneud â'r syniad o haenu polisïau (Howlett et al., 2018), a'r broses lle mae polisïau sefydledig, darpariaethau statudol yn yr achos hwn, yn cael eu cysgodi gan rai mwy diweddar, ac effaith ddilynol hyn ar ymdrechion i brif ffrydio cydraddoldeb. Trafodir hyn gan Parken (2018: 35) sy'n nodi bod y ddyletswydd i brif ffrydio yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, “has been supplanted by the processes that support the general and specific equality duties under the Equality Act 2010”.

Nodwyd yr amrywiaeth yn y graddau y telir sylw i brif ffrydio cydraddoldeb yn y cyfweliadau hefyd. O ystyried newydd-deb a photensial y ddyletswydd statudol wreiddiol, roedd prif ffrydio yn gymharol uchel ar agenda'r llywodraeth yn ystod blynyddoedd cynnar datganoli, awgrymwyd bod hyn wedi lleihau rhywfaint yn y blynyddoedd dilynol. Yn ôl un cyfwelai:

“Roedd yn air mawr hyd at tua 2007, yn rhannol rwy'n credu oherwydd nawdd gwleidyddol a'r unigolion allweddol a gamodd i lawr o'r Cynulliad Cenedlaethol, y newid i'r cyfluniad sefydliadol, ehangu cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb – roedd y rhain i gyd yn cynrychioli diffyg cyrhaeddiad o bosibl ar draws y llywodraeth...Rwyf hefyd yn credu, busnes yr agenda polisïau wrth i'r sefydliad, y Cynulliad, y Senedd erbyn hyn, dderbyn mwy o gyfrifoldebau am fwy o feysydd polisi, gallech ddadlau bod cydraddoldeb wedi'i lethu i raddau yn ystod y cyfnod o 2007 i 2017. Roedd yna ddiffyg momentwm yn sicr. ” (Cyfweliad D).

Strategaethau, Cynlluniau ac Amcanion

Mae strategaethau cynhwysfawr, y llywodraeth gyfan yn ceisio alinio gweithgarwch y llywodraeth wrth gyflawni mater polisi trawsbynciol, a sicrhau bod y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau ar draws y llywodraeth yn gefnogol i bawb. Yng nghyd-destun prif ffrydio rhywiol, argymhellir fframweithiau strategol llywodraeth

gyfan gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2018) a Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewrop (EIGE) (2016). Astudiwyd y broses o fabwysiadu strategaethau cynhwysfawr yn helaeth yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, prif ffrydio amgylcheddol a phrif ffrydio mesurau lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

Yn debyg iawn i ddarpariaethau cyfansoddiadol, gall y strategaethau hyn amrywio'n sylweddol o ran cwrdd, cynnwys a chyfarwyddyd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhannu'r un syniadau sylfaenol ar y cyfan. Maent yn ceisio creu a chyfleu gweledigaeth glir o gydraddoldeb ar draws y llywodraeth gyfan. Mae hyn yn cynnwys amlinellu egwyddorion, gwerthoedd ac amcanion polisi allweddol trosfwaol y bwriedir iddynt lywio a chyfeirio prosesau prif ffrydio. Mae hyn yn galw am gyfleu yn glir beth yw'r egwyddorion, gwerthoedd ac amcanion polisi hyn yn ymarferol, ac amlinellu'r camau y mae'n rhaid i'r llywodraeth eu cymryd i alinio ei gweithgarwch tuag atynt.

Mae'r graddau y gall strategaethau llywodraeth gyfan ymgorffori materion polisi trosfwaol yn effeithiol ar draws y llywodraeth wedi bod yn destun dadleuon. Noda Nordbeck a Steurer (2016) ddau fethiant cyffredinol mewn cysylltiad â strategaethau cynhwysfawr, llywodraeth gyfan. Mae hyn yng nghyd-destun datblygiad cynaliadwy yn bennaf, er bod y gwersi yn berthnasol i'r rhan fwyaf o faterion polisi trawsbynciol, ac maent yn darparu pwynt cyfeirio defnyddiol ar gyfer datblygu strategaethau i brif ffrydio cydraddoldeb. Y cyntaf yw methiant sylwedd, lle nad yw strategaethau yn llwyddo i gyflawni gweledigaethau cyffredinol, sy'n aml yn amwys, yn agendau polisi cryno, aml-sector. Mae'r ail yn ymwneud â methiant llawer o strategaethau i gael effaith sylweddol ar brosesau llywodraethu a llunio polisiau. Yn rhy aml, nid yw strategaethau yn cael eu hymgorffori mewn prosesau polisi, ac nid ydynt yn darparu llawer o arweiniad, os o gwbl, ar sut y gall llywodraeth weithio i gyflawni amcanion prif ffrydio, ac nid ydynt yn darparu gweithrediad clir o beth yw prif ffrydio mater i brosesau gwneud penderfyniadau yn ymarferol. O ganlyniad, yn aml nid yw penderfyniadau polisi mawr yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw strategaeth drosfwaol. Mae Nordbeck a Steurer (2016) yn awgrymu y gallai'r diffygion hyn fod yn fwy na materion i'w datrys yn gyflym, ond eu bod yn sicr yn cyflwyno'r her fwyaf wrth lunio strategaethau ar draws llywodraeth. O ystyried yr ystyriaethau hyn, mae yna gamau y gallai'r llywodraeth eu cymryd i sicrhau gweithrediad effeithiol strategaeth prif ffrydio cydraddoldeb llywodraeth gyfan.

Mae'n hollbwysig bod unrhyw strategaeth gynhwysfawr yn helpu i gyfathrebu gweledigaeth glir a chyson ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar draws y llywodraeth. Dylai hyn fod o fewn y strategaeth ei hun, ac wedi'i hymgorffori'n ddelfrydol mewn dogfennau strategol allweddol. Mae'r OECD (2018) yn darparu nifer o argymhellion yn hyn o beth. Maent yn datgan y dylai'r llywodraeth gyfleu gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb (rhyw) sy'n portreadu canlyniad penodol ar gyfer newid, bod gan y

weledigaeth hon ffocws clir, a'i bod yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol mewn termau syml i lunwyr polisi. Dylai llywodraeth osgoi mabwysiadu gweledigaeth gul, ac yn hytrach cyfleu dealltwriaeth o gydraddoldeb sy'n cynrychioli natur y problemau sy'n cael eu trafod yn gynhwysfawr. Yn yr un modd, mae Casado-Asensio a Steurer (2014), wrth gydnabod gwendidau llawer o strategaethau cynhwysfawr a nodwyd uchod, yn awgrymu y dylid defnyddio strategaethau o'r fath fel offer cyfathrebu a datblygu gallu, codi ymwybyddiaeth a siapio canfyddiadau o broblemau cymhleth. Mae Candel (2017) hefyd yn pwysleisio hyn, gan awgrymu bod strategaethau llywodraeth gyfan yn fwy tebygol o lwyddo pan fyddant yn cyfleu cyfres gydlynol o syniadau trosfwaol yn seiliedig ar fater polisi y gellir ei defnyddio i hysbysu prosesau llunio polisiâu.

Gan symud y tu hwnt i gyfleu gweledigaeth hirdymor ar gyfer cydraddoldeb, dylai strategaethau cynhwysfawr ar gyfer prif ffrydio ddarparu arweiniad clir, ac amcanion, sy'n llywio'r broses o lunio polisiâu tuag at gyflawni'r weledigaeth hon. Ateir hyn ymhellach gan OECD (2018), sy'n awgrymu bod yn rhaid i gynlluniau strategol llywodraeth gyfan ddiffinio nodau mesuradwy a dangosyddion sydd wedi'u cysylltu â chanlyniadau lefel uchel. Dylai amcanion o'r fath gael eu cefnogi gan gyfrifoldebau sydd wedi'u hamlinellu'n glir ar gyfer gweithredu, amserlenni ar gyfer cwblhau, cynlluniau gweithredu a sefydlu systemau monitro.

Dylai strategaethau prif ffrydio ddarparu mynegiant hefyd o beth yw proses brif ffrydio llywodraeth, sut mae'n gweithredu ac yn gweithio. Mae mabwysiadu dull prif ffrydio ar gyfer cydraddoldeb yn galw am newid o'r sefyllfa bresennol, o ran safbwyntiau ac arferion. Yn yr ystyr hwn, bydd strategaethau, yn ddelfrydol, yn gweithredu fel dogfennau llywio sy'n tywys llywodraeth at brif ffrydio cydraddoldeb, gan amlinellu sut y dylai llywodraeth weithredu wrth geisio cyflawni'r amcan uchod, a'r weledigaeth ar gyfer cydraddoldeb.

Strategaethau Prif Ffrydio Cydraddoldeb yng Nghymru

Cyflwynwyd papur strategaeth 'Yr Ymagwedd Arfaethedig i Gyfle Cyfartal' gan Jane Hutt AC yng nghyfarfod cyntaf pwyllgor sefydlog y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal ym mis Gorffennaf 1999. Roedd y papur hwn yn hollbwysig ar gyfer hybu cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru, gyda Chaney (2009:22) yn nodi ei fod yn cynrychioli, "a major symbolic declaration of the political (re-)prioritisation of the promotion of equalities". Roedd y papur yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer y dulliau y byddai'r Cynulliad yn prif ffrydio cydraddoldeb, gan ddatgan, "the executive will need to take equality of opportunity factors into account in every policy decision", ac y byddai hyn yn

hollbwysig wrth weithredu'r agenda cydraddoldeb (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1999 a ddyfynnwyd yn Chaney 2009: 22).

Yn dilyn hyn cafodd cyfle cyfartal ei gynnwys mewn nifer o strategaethau trosfwaol o 2000-2003. Nodwyd hyn ochr yn ochr â datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol fel un o'r tair thema flaenllaw, drawsbynciol yng nghynllun strategol cyntaf y Cynulliad 'Cymru Well' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000a). Roedd y cynllun hwn yn pwysleisio'r angen i *hyrwyddo diwylliant lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi ac mae cyfle cyfartal yn realiti* (ibid.: 4), gan nodi y byddai hyn yn cyflwyno her sylweddol i'r Cynulliad yn nhermau datblygu polisi. Cafodd cyfle cyfartal, ynghyd â'r ddwy thema drawsbynciol eraill eu cynnwys yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 200b), y cytundeb partneriaeth rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000. Wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2001, roedd 'Cynllun i Gymru' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001) yn ceisio uno dwy strategaeth flaenorol 'Cymru Well' a 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn strategaeth unigol ar gyfer gweithgarwch Llywodraeth y Cynulliad (Quinn, 2002). Roedd y strategaeth hon yn cadarnhau'r ymrwymiad i gyfle cyfartal, a'r nod cyffredinol o *gyflawni cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001: 3). Ym mis Medi 2003, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad yr agenda strategol 'Cymru: Gwlad Well' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003), a oedd yn nodi cydraddoldeb fel un o egwyddorion allweddol y llywodraeth.

Er bod cydraddoldeb wedi'i gynnwys fel amcan trosfwaol yn y cynlluniau strategol hyn, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r graddau yr oedd yr ymrwymiad hwn yn arwain at weithredu sylweddol, gydag ymdeimlad bod y cynnydd yn siomedig i raddau (Chaney, 2003). Roedd Pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ar Gydraddoldeb, er enghraifft, yn nodi swm sylweddol o waith cadarnhaol, heb gyfeiriad strategol clir. Disgrifiwyd hyn fel maes pryder penodol yn yr 'Adolygiad Prif Ffrydio Cydraddoldeb' (Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2004: 34) a ddywedodd bod Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu strategaeth gyffredinol ar gydraddoldeb.

Er bod ymdeimlad cyffredinol yn bodoli bod cydraddoldeb yn bwysig, ac y dylai'r llywodraeth hyrwyddo cydraddoldeb yn rhagweithiol yn ei gweithgarwch, ychydig iawn o eglurder oedd yn bodoli ar sut i ddefnyddio'r egwyddorion prif ffrydio yn ymarferol. Mewn ymateb i'r beirniadaethau a'r argymhellion yn Adroddiad Prif Ffrydio 2004, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Strategaeth Prif Ffrydio Cydraddoldeb', a gymeradwywyd gan y cabinet ym mis Mai 2016.

Rhodddwyd pwyslais pellach i hyrwyddo cyfle cyfartal yn strategaeth drosfwaol y llywodraeth 'Cymru'n Un', y cytundeb clymblaid rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru, gan gyfeirio at yr angen i hyrwyddo cydraddoldeb yng ngweithgarwch y llywodraeth, yn yr un modd â 'Chynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2008-2011'. Yn dilyn dwy rownd

ymgyngori, o fis Mawrth i fis Mehefin 2008 i ddechrau ac yna'n ddiweddarach o fis Hydref 2008 i fis Ionawr 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Chynllun Cydraddoldeb Sengl' cyntaf (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009). Ystyriwyd fod hyn yn *gam sylweddol ymlaen* (ibid.: 5) yn ymdrechion Llywodraeth Cymru i brif ffrydio cydraddoldeb yn ei gweithgarwch. Cynhyrchwyd Cynlluniau Gweithredu Adrannol ochr yn ochr â'r Cynllun, a diwygiwyd y broses o Lunio Polisiâu Cynhwysol.

Ar hyn o bryd, y brif ddogfen strategol a ddefnyddir i gefnogi'r broses o brif ffrydio cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb strategol. Mae Adran 3 Dyletswyddau Penodol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n nodi: yr amcanion cydraddoldeb a nodwyd gan y corff cyhoeddus; y camau a gymerir i gyflawni'r amcanion hynny; ac amserlen arfaethedig ar gyfer eu cyflawni. Hyd yma, mae tri Chynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'u cynhyrchu sy'n cwmpasu'r cyfnodau: 2012-2016, 2016-2020, a 2020-2024.

Dylai'r gofyniad statudol a roddwyd ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ynghyd ag amcanion cydraddoldeb a map trywydd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, mewn egwyddor, weithio i brif ffrydio cydraddoldeb ar draws y llywodraeth. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir y bydd ganddynt rôl gefnogol allweddol wrth brif ffrydio cydraddoldeb. Er enghraifft, roedd y Cynllun cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2012, yn cydnabod bod "gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae wrth sicrhau y caiff cydraddoldeb ei brif ffrydio a'i ymgorffori ym meysydd cyfarwyddiaethau" (Llywodraeth Cymru, 2012: 7). Roedd y Cynllun dilynol, a gyhoeddwyd yn 2016, hefyd yn nodi "mae'r Amcanion Cydraddoldeb yn y Cynllun hwn yn berthnasol i bob un o adrannau'r llywodraeth, gan sicrhau nad yw cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu gwrthio i gorneli ar wahân ond eu bod yn gyfrifoldeb i bawb sy'n llunio polisiâu" (Llywodraeth Cymru, 2016: 5).

Un patrwm a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweiliadau, fodd bynnag, oedd pryder ynglŷn â phriodoldeb ac effeithiolrwydd Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ynglŷn â phrif ffrydio cydraddoldeb:

"Rwy'n credu fod cynllun strategol Llywodraeth Cymru, wedi israddio prif ffrydio, oherwydd trafodir hyn wrth ymateb i ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru" (Cyfweiliad B).

Mynegwyd pryderon hefyd o ran a oedd yr amcanion cydraddoldeb a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i'w hyn yn ddigon uchelgeisiol:

“Bu i'r Ddeddf Cydraddoldeb yn 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wneud anghymwynas â phrif ffrydio, oherwydd nodwyd bod angen: pennu eich amcanion cydraddoldeb, creu cynllun ac adrodd. Ond mae Llywodraeth Cymru a llawer o awdurdodau lleol wedi tueddu i beidio â phennu amcanion heriol eu hunain. Maent wedi penderfynu cynyddu'r gynrychiolaeth o ferched a lleiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch, maent wedi ceisio cynyddu amrywiaeth prentisiaethau, maent wedi cyflwyno rhywfaint o hyfforddiant cydraddoldeb ac yn fwy diweddar yr arfer o gynnal hyfforddiant amrywiaeth, ac wedi hynny yr hyfforddiant ar ragfarn ddjarwybod, ” (Cyfweiliad B).

Nodwyd y pwynt hwn hefyd yn ystod yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol, a awgrymodd “mae angen gweledigaeth, iaith ac egwyddorion arweiniol o'r newydd, ynghyd â nodau uchelgeisiol a phenodol clir” (Chwarae Teg, 2019; 14).

Bu i'r cyfweleion nodi hefyd y potensial i Lywodraeth Cymru wneud mwy i esbonio'n llawn beth yw prif ffrydio, a beth yw llywodraeth sy'n gweithio i brif ffrydio cydraddoldeb, sut y dylai ymddwyn a gweithredu (Cyfweiliad D) Unwaith eto, mae awgrym o gyfle a gollwyd i'r cynlluniau Cydraddoldeb Strategol fynd i'r afael â hyn. Er bod cynllun 2012-2016 (Llywodraeth Cymru, 2012) yn cydnabod rôl Llywodraeth Cymru yn prif ffrydio cydraddoldeb, nid yw'n amlinellu'n glir beth mae hyn yn ei olygu. Roedd y cynllun dilynol yn darparu mwy o fanylion gan nodi mai “nod prif ffrydio yw cynnwys ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb mewn cynlluniau o'r cychwyn cyntaf wrth lunio polisiau, yn hytrach na'u gadael i'w hystyried ar y funud olaf ar ôl gwneud penderfyniadau pwysig” (Llywodraeth Cymru, 2016: 5). Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol yn debyg yn hyn o beth, gyda'r unig gyfeiriad at brif ffrydio yn ymwneud â Nod Hirdymor 4. Ceisia hyn sicrhau bod Cymru yn arweinydd cydraddoldeb rhywiol yn rhyngwladol, ac y bydd hyn yn cael ei gefnogi “drwy fabwysiadu dull prif ffrwd” (Llywodraeth Cymru, 2020a: 28), er na roddir unrhyw arweiniad gwirioneddol ar beth fyddai dull o'r fath yn ymarferol.

Offer Polisi 2: Offer Sefydliadol

Mae'r adran hon yn trafod defnydd Llywodraeth Cymru o offer sefydliadol i brif ffrydio cydraddoldeb yng Nghymru, ac yn benodol y defnydd o: pwyllgorau rhyng-weinidogol; timau ac unedau penodedig; ac arweinwyr a hyrwyddwyr cydraddoldeb.

Pwyllgorau

Mae prif ffrydio effeithiol yn cydlynu mentrau cydraddoldeb ar draws llywodraeth. Dull cyffredin o sicrhau'r cydlyniad hwn yw sefydlu pwyllgorau yn y llywodraeth sy'n gyfrifol am graffu, goruchwyllo ac ymgysylltu ynghylch materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae'r rhain yn ceisio dod â chyfranogwyr gwleidyddol, gweinyddol ac anllywodraethol ynghyd i fynd i'r afael â materion trawsbynciol. Gwnaed nifer o awgrymiadau ar sut i sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf. Yn gyntaf, mae'r angen am arweinyddiaeth a chynrychiolaeth lefel uchel. Mae'r OECD (2018) yn awgrymu bod angen sicrhau bod pwyllgorau yn cael eu cefnogi gyda'r lefel briodol o gynrychiolaeth ar gyfer y dasg dan sylw. Er enghraifft, gallai pwyllgorau rhyng-weinidogol ar gydraddoldeb, ddarparu cynrychiolaeth ar lefel y cabinet, a'r arweinyddiaeth lefel uchel sydd ei hangen i ddylanwadu ar bolisiau a phennu agendâu ehangach. Yn yr un modd, mae Nunan et al. (2012) yn awgrymu bod effeithiolrwydd pwyllgorau trawslywodraethol, ar lefel adrannol, wedi'i ddylanwadu'n helaeth gan y swyddog neu'r adran sy'n gyfrifol am gadeirio, gyda chryfder eu mandad perthnasol yn dylanwadu ar eu safle ar draws y llywodraeth. Mae'n rhaid bod gan bwyllgorau lefel briodol o allu ac awdurdod hefyd i graffu'n ddigonol a llywio ymdrechion prif ffrydio. Mae hyn yn cynnwys ffactorau fel pwerau goruchwyllo a chraffu, a sicrhau bod ganddynt adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau.

Er eu bod wedi'u sefydlu mewn llawer o wledydd i gefnogi'r gwaith o gydlynu polisiau ac ymdrechion prif ffrydio, nid yw creu pwyllgor traws-sectoraidd yn gwarantu goruchwyliaeth, craffu a llywio effeithiol (Nunan et al., 2012). Mae Schout a Jordan (2008) yn nodi anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â phwyllgorau, a'r anhawster amlycaf yw canoli tasgau cydlynu, ar lefel weinidogol neu gabinat yn aml. Maent yn dadlau y gallai hyn orlwytho gallu sefydliadol llywodraeth ganolog, gan dynnu sylw oddi ar un ymrwymiad neu nod, ar draul un arall. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun Cymru, o ystyried y cynnydd cynyddol yng nghyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru a'r baich cynhenid y bydd hyn yn ei roi ar weinidogion.

Pwyllgorau Cydraddoldeb yng Nghymru

Sefydlwyd pwyllgor sefydlog ar Gyfle Cyfartal ym 1999 a fyddai'n hyrwyddo'r briff cydraddoldeb. Roedd yn un o ddau bwyllgor sefydlog i dorri ar draws meysydd polisi, gyda'r llall yn canolbwyntio ar faterion Ewropeaidd (Rees, 2002). Cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod o Gabinet y Cynulliad, gyda'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl bwyllgorau pwnc. Derbyniodd cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd Cymru, a'r Comisiwn Hawliau Anabledd arfaethedig, wahoddiadau sefydlog i fynychu cyfarfod fel cynghorwyr. Rôl

y pwyllgor oedd sicrhau bod gan y Cynulliad drefniadau effeithiol i hyrwyddo'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth arfer ei swyddogaethau, ac ystyried sut y gellir prif ffrydio cydraddoldeb yn effeithiol yng ngwaith y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad. Roedd hefyd yn gyfrifol am fonitro gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol.

Mae archwilio llwyddiant y pwyllgor hwn yn datgelu darlun cymysg. Roedd pryderon cychwynnol ynghylch y graddau y gallai'r pwyllgor fonitro'r gwaith o brif ffrydio cydraddoldeb yn effeithiol ar draws y Cynulliad. Nododd Williams (2001: 68), er enghraifft, "the EO Committee faces a mammoth task in scrutinizing this agenda alone", gan amlygu trafodaeth barhaus ar ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, noda Chaney (2005) bod y pwyllgor wedi datblygu, yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynulliad, i fod yn fforwm trawsbleidiol arwyddocaol ar gyfer datblygu'r agenda cydraddoldeb a monitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd brif ffrydio. Yng nghydestun cydraddoldeb rhywiol, dangoswyd ei fod yn hwyluswr pwysig i gysylltiadau rhwng cynrychiolwyr etholedig, cyfranogwyr a sefydliadau cymdeithas sifil (Chaney, 2009; Rees a Chaney, 2011). Roedd y Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gomisiynu'r 'Adolygiad Prif Ffrydio' yn 2004, a oedd yn cynrychioli'r adolygiad trawsbleidiol, arwyddocaol cyntaf o brif ffrydio mewn llywodraeth yn y DU.

Er gwaethaf meysydd llwyddiant o'r fath, profodd y pwyllgor broblemau. Yn gyntaf, gan adleisio pryderon Williams (2001), cyfyngedig oedd effeithiolrwydd y gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd brif ffrydio, yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg eglurder ynghylch rôl a gallu.

Er enghraifft, canfu dadansoddiad o'r trawsgrifiadau a dogfennau rhwng Mawrth 2006 – Mawrth 2008 bod bron i hanner cyfarfodydd y pwyllgor wedi cynnwys rhywfaint o drafodaeth ynghylch cyfyngiadau, neu ddiffyg eglurder, ynglŷn â phŵer y Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb mewn meysydd polisi eraill (Chaney, 2009).

Gellir asesu rôl y pwyllgor Cyfle Cyfartal yn ystod y ddau Gynulliad Cyntaf fel cynnyrch ei chyfnod, gyda'r pwyllgorau'n chwarae rôl ganolog, lled-weithredol wrth lunio polisïau, yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynulliad. Newidiodd hyn rhywfaint yn dilyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a'r gwahaniad ffurfiol rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa:

"Yn ystod dyddiau corfforaethol y corff, roedd elfen o gyfrifoldeb a rennir a bod gan y pwyllgor swyddogaeth weithredol, yn rhannol, ar gydraddoldeb. Ac yna, yn dilyn gwahanu'r pwerau, symudodd i rôl graffu fwy traddodiadol Gweithrediaeth Llywodraeth Cymru, neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel ag yr oedd" (Cyfweliad D).

Newidiodd hyn hefyd ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad, gyda'r newidiadau a wnaed i strwythur system pwyllgorau'r Cynulliad. Roedd y cyfrifoldeb dros gyfle cyfartal wedi'i gynnwys yn awr yng nghylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Roedd ei gylch gwaith yn cynnwys materion deddfwriaethol a pholisi, gan gynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru; llywodraeth leol a chyfle cyfartal i bawb. Diddymwyd y pwyllgor hwn yn dilyn y pedwerydd Cynulliad, gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cael ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016. Roedd ei gylch gwaith yn cynnwys: llywodraeth leol, tai, adfywio cymunedol, cydlyniant a diogelwch; mynd i'r afael â thlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

Gellir gweld bod y newid yn strwythur a chylch gwaith y pwyllgor yn cyd-fynd â newid mewn blaenoriaeth ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb yng ngweithgarwch y pwyllgor. Nid yw hyn o reidrwydd yn syndod oherwydd, o ystyried y newidiadau i strwythur y llywodraeth, mae gan y pwyllgorau rôl lai o lawer yn datblygu polisïau o gymharu â'r gorffennol. Yn ogystal, wrth i gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gynyddu, gellir disgwyl i'r sylw a roddir i brif ffrydio cydraddoldeb leihau.

Nodwyd rôl ostyngol y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio cydraddoldeb, o gymharu â'r Pwyllgor Sefydlog blaenorol, yn ystod cyfweiliadau:

“Roedd gennym bwyllgor sefydlog ar gyfle cyfartal bryd hynny. Felly, roedd ganddo fwy o bwerau mewn ffordd, na'r pwyllgor presennol, ac fe lwyddodd i ddod â swyddogion i mewn a dweud, “Beth wyt ti wedi'i wneud, beth wyt ti wedi'i wneud, a ti?” (Cyfweiliad B).

Mater arall a ddaeth i'r amlwg yn y cyfweiliad oedd gallu cyfyngedig y Senedd ac effaith ddilynol hyn ar ymdrechion y Pwyllgor Sefydlog gwreiddiol ar Gyfle Cyfartal, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau presennol. Pan gawsant eu holi ynghylch hyn, dywedodd un cyfweilai:

“O safbwynt gwleidyddol ac arweinyddiaeth wleidyddol, mae 60 aelod yn parhau i fod yn druenus o annigonol. Ac yna, pan ydych yn tynnu'r Dirprwy Weinidogion a'r Weithrediaeth o'r nifer hon, mae gennych 40 unigolyn ar ôl. Yna mae gennych y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. Felly, mae'r nifer yn gostwng. Felly mae gennych chi 38 o bobl ar ôl i weithio ym mhob un o'r swyddi, yn nhermau rolau craffu. Ac rwy'n credu mai hyn oedd un o'r ffactorau cyfranogol” (Cyfweiliad D).

Timau ac Unedau Prif ffrydio

Mae cyrff ymroddedig o fewn llywodraeth, sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o weithredu unrhyw fenter prif ffrydio trawsbynciol yn offer sefydliadol arall a ddefnyddir yn aml. Mae creu corff cydraddoldeb yn helpu i sicrhau bod llywodraeth yn prif ffrydio cydraddoldeb ar draws portffolios. Gallent weithredu naill ai fel endid penodol, neu weithredu o fewn sector presennol. Er bod cyrff o'r fath yn aml yn cael eu sefydlu fel prif ysgogwyr mentrau prif ffrydio, ni ddylid ystyried eu bod yn meddu ar gymhwysedd unigryw dros fandad trawsbynciol. Yn hytrach, maent yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn darparu arweiniad ac arbenigedd ar draws y llywodraeth mewn cysylltiad ag ymgorffori cydraddoldeb yn eu gwaith. Yn eu hanfod, mae'r cyrff hyn yn gweithredu fel rhychwantwyr ffiniau, sy'n ceisio gweithio ar draws y llywodraeth a gyda'r sector cyhoeddus ehangach, i sicrhau'n effeithiol bod mater trawsbynciol yn cael ei ymgorffori yn y gwaith ehangach o lunio polisiau (Carey et al., 2017). Ystyrir eu bod yn hollbwysig i lwyddiant gwaith cydlynol ar draws y llywodraeth gyfan ac wedi hynny maent yn darparu offer allweddol er mwyn cefnogi cyflwyniad mentrau prif ffrydio ar draws y llywodraeth.

Er bod ganddynt rôl amlwg yn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio nifer o faterion polisi trawsbynciol mewn awdurdodaethau amrywiol, mae'r graddau y maent yn gweithredu'n effeithiol yn ddibynnol ar nifer o ffactorau. Dangosodd Squires a Wickham-Jones (2004) hyn yn eu dadansoddiad o Uned y Menywod a'r Uned Menywod a Chydraddoldeb, a sefydlwyd yn llywodraeth y DU i hwyluso prif ffrydio rhywiol. Bu iddynt ganfod, er gwaethaf peth llwyddiant mewn meysydd polisi lle'r oedd gwaith yr uned yn alinio â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, "its contribution to the Process of mainstreaming gendered perspectives into all policymaking was much harder to discern" (ibid.: 81). Priodolwyd hyn i dri ffactor: diffyg eglurder ynghylch rôl yr uned; ansicrwydd sefydliadol ynghylch safle'r uned, mewn cysylltiad â gweddill y llywodraeth, a diffyg cefnogaeth gan, ac ymgysylltiad gyda, chyfranogwyr nad oeddent yn ymwneud â chydraddoldeb o fewn y llywodraeth.

Bu'n bosibl nodi ffactorau lluosog a allai ddylanwadu ar y graddau y gall uned gydraddoldeb benodedig helpu i hwyluso'r broses o brif ffrydio cydraddoldeb. Mae cyrff ymroddedig sy'n cefnogi prif ffrydio yn gweithio, yn eu hanfod, i bontio ffiniau adrannol; felly gall cyfraniad eu rôl benodol wrth lunio polisiau fod yn eithaf amwys (O'Flynn, 2011). Mae hyn yn golygu bod sicrhau eglurder ynghylch rôl a chylch gwaith unedau yn hollbwysig. Dylid aseinio rolau a chyfrifoldebau i weithredu prosesau prif ffrydio rhywiol yn glir ar draws y llywodraeth, ac mae'n rhaid i gyrff cydraddoldeb canolog weithredu gyda mandad clir. Fel y nodwyd, gall ffurfiau unedau a thimau amrywio ac efallai y byddant yn gorfod cyflawni rolau rhyng-gysylltiedig amrywiol. Nododd Fleischer (2009) bedair swyddogaeth allweddol cyrff

trawsbynciol: cymorth gweinyddol a gweithredu; cyngor polisi; cydlyniant; ac ystyried y dyfodol. Yn yr un modd, mae OECD (2018) yn awgrymu y gall unedau prif ffrydio fod yn gyfrifol am oruchwyllo, cyngor, cefnogi gweithrediad a monitro perfformiad i wahanol raddau. Felly, mae eglurder ynghylch beth yw a beth nad yw uned, yr hyn maent yn gyfrifol amdanynt, yn hollbwysig er mwyn sicrhau swyddogaeth effeithiol. Mae cryfder mandad uned yn ffactor pwysig hefyd, ac yn ddelfrydol, bydd gan gyrff cydraddoldeb yr hyblygrwydd angenrheidiol i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws llywodraeth (Nunan et al., 2012).

Ffactor cysylltiedig a phenderfynydd rhannol yr eglurder ynghylch rôl uned yw ei lleoliad o fewn llywodraeth. Fel y nodwyd gan Squires a Wickham-Jones (2004), mae hyn yn cael effaith sylweddol ar y ddealltwriaeth o'u cylch gwaith, ac ar yr ymdeimlad o gydberchnogaeth ynghylch mater polisi 'amhosibl'. Gallai newid sefydliadol drwy gyflwyno corff penodedig i hyrwyddo prif ffrydio, mewn rhai achosion, arwain at greu 'haen' arall, gan ychwanegu at ddarnio sefydliadol, yn hytrach na chreu pontydd rhwng meysydd polisi (Carey a Crammond, 2015). Gellir gweld enghraifft o'r broblem hon yng nghyd-destun Cymru yn ymdrechion y Cynulliad i brif ffrydio datblygu cynaliadwy (Bishop a Flynn, 2005). Yn dilyn cyflwyniad y strategaeth datblygu cynaliadwy cyntaf, cyflwynodd Cynulliad Cymru 'Uned Datblygu Cynaliadwy' yn Isadran yr Amgylchedd y Grŵp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd. Roedd yr Uned hon yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o brif ffrydio datblygu cynaliadwy ym mhob un o benderfyniadau'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae yna drafodaeth ynghylch lleoliad priodol uned o'r fath, a'r graddau y byddai hyn yn effeithio ar ei gallu i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau mewn meysydd polisi eraill. Roedd hyn yn seiliedig ar bryderon y byddai datblygu cynaliadwy, drwy greu uned benodol yn Isadran yr Amgylchedd, yn cael ei ystyried fel pryder amgylcheddol yn unig, ac felly ei fod yn llai perthnasol i feysydd polisi nad ydynt yn rhai amgylcheddol. Fe symudodd yn ddiweddarach i'r Uned Polisi Strategol, gyda'r rhesymeg y byddai lleoli'r corff sy'n gyfrifol am oruchwyllo a chydlynu ymdrechion prif ffrydio mewn uned â chylch gwaith mwy trawsbynciol yn fwy effeithiol.

Yn olaf, mae angen adnoddau digonol ar gyrff penodedig o fewn llywodraeth ar gyfer eu rôl. Mae'r OECD (2018) yn nodi mae un rhwystr cyffredinol at brif ffrydio effeithiol yw prinder amser, staff, hyfforddiant a chyllideb, ymhlith ffactorau eraill, sy'n eu hatal rhag gweithredu eu mandad yn effeithiol.

Timau ac Unedau Prif Ffrydio yng Nghymru

Yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynulliad gwelwyd Uned Polisi Cydraddoldeb ganolog yn cael ei chreu a oedd yn gyfrifol am: dosbarthu cyngor ac arfer gorau ar draws y llywodraeth; cynnal dialog gyda sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau cydraddoldeb; a chefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000). Yn debyg i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, cyfyngwyd ar effeithiolrwydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb gan nifer o ffactorau. Mynegwyd pryderon ynghylch y graddau y byddai'r Uned yn ysgogi newid sylweddol yn y llywodraeth. Er enghraifft, cwestiynodd Williams (2001: 72) barodrwydd swyddogion y llywodraeth i, "challenge the hand that feeds them". Holwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â'r graddau yr oedd gwaith yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn cysylltu â gwaith adrannau eraill, gydag awgrymiadau bod angen gwneud mwy o waith i gydlyn'r Uned Polisi Cydraddoldeb gyda gweddill y Llywodraeth (Chaney, 2003). Wrth bwysleisio pwysigrwydd unedau cydraddoldeb canolog, roedd Adolygiad Prif Ffrydio 2004 yn feirniadol o effeithiolrwydd yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn benodol staffio, cylch gwaith a chysylltiadau â gweddill y llywodraeth. Cafodd yr uned ei rhwystro'n barhaus gan brinder staffio a chyfraddau trosiant uchel, a nodwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2003 a 2004. Ymhlith y pryderon y byddai'r materion hyn yn debygol o barhau, argymhellodd yr adolygiad y dylid ymdrechu i sicrhau bod gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb y lefel ddigonol o staff, bod y staff yn meddu ar arbenigedd cydraddoldeb a'u bod yn cael eu cefnogi gyda hyfforddiant priodol ar gydraddoldeb. Roedd diffyg eglurder ynglŷn ag union rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb, gydag argymhellion y dylai'r Llywodraeth egluro ei diben, i bwy y byddai'n adrodd, ac i bwy y byddai'n darparu cyngor.

Pwysleisiwyd hyn ymhellach yn ystod y cyfweiliadau, gydag ansicrwydd ynglŷn â chylch gwaith yr Uned, a diffyg 'perchnogaeth' dros faterion cydraddoldeb ar draws y llywodraeth, a oedd yn creu'r argraff nad oedd cydraddoldeb o reidrwydd yn fater yr oedd angen i feysydd polisi nad oeddent yn ymwneud â chydraddoldeb ei ystyried yn eu gwaith:

“Roedd uned benodedig ar y pryd, yr Uned Polisi Cydraddoldeb ac rwy'n credu bod agwedd yn bodoli ymhlith rhai gweision sifil a rhai adrannau, mai dyna oedd eu rôl hwy, ymdrin â chydraddoldeb, ac y gallent barhau fel ag o'r blaen. Roedd rhywun yno yn ymdrin â chydraddoldeb ar eu rhan yn yr Uned Polisi Cydraddoldeb, ac nid oedd yn rhywbeth yr oedd angen iddyn nhw ei wneud yn eu gwaith nhw o bosibl” (Cyfweiliad D).

Roedd awgrym bod lleoliad, a statws yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn cyfyngu ei heffeithiolrwydd ac yn golygu bod materion cydraddoldeb yn derbyn llai o sylw na materion polisi mwy amlwg:

“Rwy’n credu hefyd, statws yr Uned Cydraddoldeb yn Llywodraeth Cymru, nid oedd ganddi’r statws angenrheidiol. Ac roedd blaenoriaethau polisi eraill ac unigolion lefel uwch yn derbyn blaenoriaeth. Felly roedd yn rhaid iddi fod yn israddol oherwydd y diffyg statws. Felly, nid wyf yn credu bod ganddi’r dylanwad”
(Cyfweliad D).

Y Tîm Cydraddoldeb canolog yw’r brif ffynhonnell cymorth a chyngor bresennol ar gyfer gweithredu’r agenda cydraddoldeb, sy’n gweithio i gynorthwyo swyddogion sy’n gweithio mewn rolau cydraddoldeb a swyddogion y llywodraeth yn fwy cyffredinol. Mae’r Tîm Cydraddoldeb yn gyfrifol am hyrwyddo a phrif ffrydio cydraddoldeb ar draws Llywodraeth Cymru, ac am gefnogi gweithrediad darpariaethau Cymru yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.

O ran effeithiolrwydd y Tîm Cydraddoldeb mae yna ddau bwynt cysylltiedig o ddiddordeb. Yn gyntaf mae fersiynau olynol o gorff penodedig sy’n cefnogi prif ffrydio yn Llywodraeth Cymru wedi wynebu cyfyngiadau tebyg yn gyffredinol. Yn ail, mae hinsawdd weithredol bresennol Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rhwystrau arwyddocaol wrth geisio lliniaru’r cyfyngiadau hyn.

O ran y pwynt cyntaf, mae yna gyfyngiadau adnabyddadwy a allai gyfyngu ar effeithiolrwydd y Tîm Cydraddoldeb. Mae’r cyntaf yn ymwneud â’r raddfa o gydberchnogaeth o gydraddoldeb ar draws Llywodraeth Cymru, ac effaith ddilynol hyn ar gyrff y bwriedir iddynt hwyluso a chefnogi prif ffrydio. Fel y nodwyd, gallai sefydlu corff penodedig i hyrwyddo prif ffrydio mater trawsbynciol arwain at greu ‘haen’ sefydliadol arall. Nid yw hyn o reidrwydd yn wir yng Nghymru, oherwydd mae’r Tîm Cydraddoldeb yn gweithio ac yn ymgysylltu â meysydd polisi eraill. Fodd bynnag, mae canfyddiadau yn awgrymu bod methiant i ystyried cydraddoldeb fel cyfrifoldeb cyffredinol ar draws y Llywodraeth wedi cyfyngu ar waith y Tîm Cydraddoldeb. Gellir priodoli hyn yn bennaf i’r rhagdybiaeth y bydd rhan arall o’r llywodraeth yn ymdrin â chydraddoldeb.

“Ni allaf ddweud wrthyf faint o swyddogion gwych yr wyf wedi gweithio gyda nhw yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf sydd wedi ymdrechu mor galed yn yr isadran honno i gael isadrannau eraill i wneud y gwaith hwn, ond mae arna’i ofn bod cydraddoldeb,

fel cynaliadwyedd i raddau, yn parhau i gael ei ystyried yn fater i rywun arall” (Cyfweliad B).

Mae cyfle i wneud mwy i egluro rôl a chylch gwaith y Tîm Cydraddoldeb . Pwysleisiwyd hyn yn benodol yn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol diweddar a oedd yn argymhell “Dylid egluro rôl y Tîm Cydraddoldeb Canolog ac ystyried a yw’n derbyn adnoddau digonol ar hyn o bryd i gyflawni’r rôl” (Chwarae Teg, 2019: 81). Canfu, er bod llawer o gyfranogwyr yn y llywodraeth yn ystyried y Tîm Cydraddoldeb fel eu prif ffynhonnell ar gyfer cyngor ar gydraddoldeb, gallai fod hyn yn arwain at orddibyniaeth. Nodwyd bod “consensws eang bod y Tîm Cydraddoldeb wedi’u llethu â gwaith” (Chwarae Teg, 2019: 79), ac roedd hyn yn fwyfwy amlwg “wrth i gydraddoldeb ddod yn flaenoriaeth fwy amlwg i Weinidogion” (ibid.)

Er bod gorddibyniaeth dybiedig ar y Tîm Cydraddoldeb yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o gydnabyddiaeth gyffredinol ar draws y llywodraeth o’u heffeithiolrwydd, mae’n bosibl nad yw gorddibyniaeth o’r fath yn ddelfrydol er mwyn gallu prif ffrydio yn effeithiol. Nodwyd hyn yn ystod cyfweiliadau, gydag un cyfwelai yn awgrymu bod:

“angen fîm rhywle sy’n fwy ymroddedig i’r gwaith hwn ar draws y llywodraeth, yn hytrach nac ymateb i ymholiadau gweinidogol ac adrodd yn erbyn gwahanol rannau o reoliadau” (Cyfweliad B).

Cyfngiad arall a nodwyd oedd effaith digwyddiadau allanol, a chyd-destun gweithgarwch gwleidyddol ehangach Llywodraeth Cymru, yn arbennig y pandemig COVID-19, effaith Brexit a delio â chyni a chyllidebau cyfyngedig:

“Mae COVID wedi cael effaith aruthrol ar bawb yn Llywodraeth Cymru, ond yn arbennig ar y fîm cydraddoldeb yn fy marn i” (Cyfweliad B).

Ategwyd hyn yn ystod y cyfweiliadau, gydag un cyfwelai yn nodi:

“Wel, mae gennym yr her o coronafeirws a’r pandemig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond rydym wedi byw drwy’r her o gyni am y deng mlynedd ddiwethaf, a’r ffaith ein bod wedi gorfod gwybod, mewn ffordd, bod yna gynllun diswyddiadau gwirfoddol, rydym wedi cael effaith wirioneddol ar wasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus” (Cyfweliad A).

Awgrymwyd fod y cyd-destun hwn yn gosod cyfyngiadau ar y graddau y gallai Llywodraeth Cymru, yn realistig, fynd i'r afael â'r heriau hyn:

“Rwy’n credu ei bod yn anodd creu swyddi newydd ar hyn o bryd, o unrhyw ddisgrifiad, oherwydd cyfyngiadau'r gyllideb. A hefyd, bu'n rhaid i gymaint o'n staff symud hefyd. Bu'n rhaid i'n swyddogion symud i dimau ymateb i COVID yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd gennym lawer o waith i baratoi ar gyfer Brexit hefyd. Mae wedi bod yn her wirioneddol i gyflwyno a gweithredu datblygiadau newydd a chyfleoedd proffesiynol a swyddogol newydd i weision cyhoeddus hefyd” (Cyfweiliad A).

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad yw cyrff penodedig yn gallu a'u bod yn chwarae rôl allweddol yn prif ffrydio cydraddoldeb. Dangosodd y cyfweleion gonsensws eang ar bwysigrwydd cyrff a strwythurau o'r fath er mwyn prif ffrydio cydraddoldeb ar draws Llywodraeth Cymru.

“Mae'n rhaid cael canolbwynt yn y weinyddiaeth lle gall yr arbenigwyr hyn, sy'n deall prif ffrydio ddwyn unigolion, adrannau a thimau i gyfrif ” (Cyfweiliad C).

Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd egluro rôl y Tîm Cydraddoldeb, cynyddu ei gyllid a'i adnoddau, a chynyddu ei bŵer i ddwyn adrannau eraill i gyfrif. Fodd bynnag, un ffactor na ellir ei osgoi yw, bod llawer o'r awgrymiadau hyn yn ddibynnol ar adnoddau a chapasiti:

“Nid oes ffordd o osgoi hyn. Mae'n rhaid buddsoddi ynddo. Nid yw'n mynd i ddigwydd ei hun. Rwy'n credu bod angen, yn ychwanegol â'r ymrwymiad lefel uchel hwnnw, y canolbwynt mewnol hwnnw a all weithio i wthio'r agenda un yn eu blaenau. Os ydynt yn cael eu hystyried o ddifri. Mae hynny'n benderfyniad gwleidyddol o ran a ydych wir eisiau gwthio'r agendâu hyn yn eu blaenau ai peidio” (Cyfweiliad C).

Hyrwyddwyr ac Arweinwyr Cydraddoldeb

Dull arall o hwyluso gwaith traws-sectoraidd wrth gefnogi prif ffrydio yw gwneud defnydd o hyrwyddwyr neu arweinwyr penodedig. Swyddogion yw'r rhain, neu grwpiau o swyddogion, sy'n cael eu lleoli mewn adrannau unigol, sy'n gyfrifol am hyrwyddo mater polisi trawsbynciol (Gore, 2014).

Mae Schout a Jordan (2008) yn nodi nifer o rolau y gall swyddogion penodedig eu chwarae i hyrwyddo materion trawsbynciol ar draws y llywodraeth. Gallai'r rhain fod yn swyddogion sydd wedi'u lleoli mewn adrannau sy'n tynnu sylw at ac yn trosglwyddo gwybodaeth am ddatblygiadau polisi a allai gael effaith negyddol ar fater trawsbynciol (e.e. cydraddoldeb). Efallai y bydd gan swyddogion o'r fath yr awdurdod i wahardd unrhyw gynigion polisi a allai gael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Gall hyrwyddwyr neu arweinwyr fod yn gyfrifol am ddarparu cyngor hefyd ar weithgareddau sy'n ymwneud â mater trawsbynciol. Er enghraifft, cynorthwyo eu hadrannau perthnasol i ddefnyddio asesiadau effaith. Yn olaf, hwyrach eu bod yn gweithredu fel 'llysgenhadon', sy'n gyfrifol am eirioli ar gyfer, a chodi ymwybyddiaeth o fater trawsbynciol yn eu hadrannau perthnasol. Gellir gwneud y gwaith hwn hefyd fel rhan o rwydwaith traws-sectoraidd, yn annog a llunio trafodaethau rhwng adrannau.

Gall defnyddio hyrwyddwyr cydraddoldeb penodedig fod yn ddull effeithiol o siapia a dylanwadu ar bolisiau ar draws y llywodraeth. Gallent fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o fater trawsbynciol, darparu cyngor, dosbarthu arfer gorau a lloïo yn eu hadrannau. Fodd bynnag, mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch eu dylanwad posibl ar gyfeiriad polisi eu hadrannau perthnasol a'r graddau y mae mater polisi trawsbynciol wedi'i ymgorffori wrth wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae Jacob a Volkery (2004) yn nodi mai rheswm posibl am hyn yw'r disgrisiwn a'r cwmplas cyfyngedig a roddir i leisiau sy'n anghytuno gan lwybrau ac arferion sefydledig, gan gyfyngu'r ystyriaeth o opsiynau polisi amgen. Mae prif ffrydio cydraddoldeb yn galw am symud i ffwrdd yn sylweddol o arferion sefydledig ac efallai na fydd arweinwyr neu hyrwyddwyr cydraddoldeb wedi'u grymuso neu eu cymhwyso'n ddigonol i hwyluso'r newid hwn.

Ar yr un trywydd â hyn, mae Schout et al. (2010) yn dadlau y rhoddir rolau o'r fath i aelodau o staff iau yn aml yn ychwanegol at eu prif gyfrifoldeb. Mae'n bosibl nad oes gan aelodau o staff neu swyddogion o'r fath yr awdurdod angenrheidiol i ymyrryd mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac mae eu gwaith yn cael ei ddiystyru'n aml o benderfyniadau polisi mawr eu hadrannau perthnasol. Efallai eu bod yn amharod i beryglu eu sefyllfa neu eu statws eu hunain, yn arbennig pan fydd eu rôl yn galw am

ddatblygu cynigion neu safbwynt sydd, o bosibl, yn gwrth-ddweud, neu'n tanseilio, amcanion polisi eu hadran berthnasol hwy.

Hyrwyddwyr ac Arweinwyr Cydraddoldeb yng Nghymru

Mae hyrwyddwyr ac arweinwyr cydraddoldeb wedi bod yn rhan allweddol o seilwaith sefydliadol Llywodraeth Cymru i brif ffrydio cydraddoldeb. Dechreuodd hyn ar ddechrau'r broses ddatganoli, gyda phob cynrychiolydd pwyllgor pwnc ar y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfle Cyfartal yn gweithredu fel hyrwyddwr cydraddoldeb yn eu maes perthnasol hwy (Rees, 2002). Cafodd y defnydd o hyrwyddwyr cydraddoldeb ei gynnwys hefyd yn Adolygiad Prif Ffrydio 2004, gydag argymhelliad y dylai Isadrannau'r Cynulliad sefydlu systemau i hyrwyddo cydraddoldeb yn eu gwaith eu hunain. Un model posibl ar gyfer hyn oedd nodi un person, gyda rhyw lefel o awdurdod, gyda chyfrifoldeb am faterion cydraddoldeb mewn Is-adran.

Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o adrannau yn cynnwys Arweinwyr Cydraddoldeb – swyddogion sydd, yn ychwanegol at eu prif rôl, yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb yn eu hadrannau perthnasol. O ran y gwaith hwn, maent yn chwarae rôl allweddol yn prif ffrydio cydraddoldeb, ac mae eu gwaith wedi'i amlygu fel gwaith sy'n arwain at roi mwy o ystyriaeth i gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau adrannol, a pholisi (Chwarae Teg, 2019; Senedd, 2020). Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu eu bod yn gweithredu'n dda fel rhwydwaith, yn hwyluso gwaith traws-ffolio ar gydraddoldeb, fel y dangosodd un cyfweiliad:

“Maen nhw'n cwrdd bob mis i drafod materion a rhannu arfer gorau. Maen nhw'n darparu cyngor ac arweiniad i'w hadrannau ar gwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Ac mae Arweinwyr Cydraddoldeb, maen nhw yno i herio a chwestiynu, sicrhau y rhoddir ystyriaeth mewn swyddogaethau datblygu polisi o ddydd i ddydd” (Cyfweiliad A).

Er eu bod yn cynrychioli rhan sylweddol o seilwaith sefydliadol Llywodraeth Cymru ar gyfer cydraddoldeb, mae Arweinwyr Cydraddoldeb yn wynebu nifer o heriau. Yn gyntaf, wrth adlewyrchu ar y llenyddiaeth sydd ar gael, mae'n ymddangos bod natur rhan amser eu rôl yn cyfyngu eu heffeithiolrwydd. Soniwyd am hyn yn ystod y cyfweiliadau:

“Mae yna Arweinwyr Cydraddoldeb, maen nhw'n rhan allweddol o bob adran. Ond yn aml, fel y soniais, gallai fod gennych gyfrifoldebau eraill yn ogystal â'r cydraddoldeb, a dyna lle gallai gael ei ddiystyru” (Cyfweiliad A).

Cafwyd nifer o awgrymiadau hefyd y gellir cynyddu cyfranogwyr Arweinwyr Cydraddoldeb wrth lunio polisïau yn gyffredinol. O ganlyniad i'r cyfyngiadau amser a grybwyllwyd eisoes, heriau gallu a diffyg awdurdod o fewn adrannau, mae'r Arweinwyr Cydraddoldeb yn aml yn cael anhawster i gyflawni rôl ragweithiol wrth ddatblygu polisïau yn eu hadrannau perthnasol.

Adleisiwyd hyn yn ystod y cyfweiliadau:

“Rhoi mwy o arweinyddiaeth a phŵer – mae'n golygu pŵer – a blaenoriaeth i'r Arweinwyr Cydraddoldeb hyn” (Cyfweiliad A).

Mae ffactor arall yn ymwneud â'r lefel o arbenigedd a phrofiad o gydraddoldeb a oedd gan y rhai a oedd yn gyfrifol am ei hyrwyddo. Amlygwyd hyn yn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol, a nododd “nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaeth sylweddol o arbenigedd neu brofiad cydraddoldeb i'r rhai sy'n ceisio am swyddi sy'n cynnwys y rôl Arweinydd Cydraddoldeb, er yn aml pobl ag angerdd am gydraddoldeb sy'n ymgeisio am y swyddi hyn” (Chwarae Teg, 2019: 77). At hynny, mae llawer o weision sifil yn weithwyr cyffredinol, sy'n symud rhwng meysydd polisi, ac efallai y byddant yn cael anhawster i ddatblygu gwybodaeth arbenigol am gydraddoldeb o ganlyniad i hynny. Nodwyd yr angen hwn am arbenigedd sefydledig mewn adrannau yn y cyfweiliadau, gyda'r awgrym:

“Mae angen yr arbenigedd hwnnw arnoch. Felly, mae angen i chi allu blaenoriaethu buddsoddiad yn yr arbenigedd hwnnw a chadw'r arbenigedd hwnnw er mwyn gallu gwrthio'r gwahanol agendâu hyn yn eu blaenau. Y peth yw, ni allwch osgoi hynny. Ni allwch ddod â rhywun i mewn heb y cefndir hwnnw mewn cydraddoldeb. Ni allwch ddod â nhw i mewn i ddarparu'r math hwnnw o gefnogaeth tra byddant hwy eu hunain yn parhau i ddatblygu eu gallu eu hunain” (Cyfweiliad C).

Yn ogystal â'r pwyntiau hyn, mae'r Arweinwyr Cydraddoldeb yn wynebu'r un mater â Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, gyda llawer o'r awgrymiadau posibl ar gyfer gwella eu heffeithiolrwydd, yn realistig, yn rhy anodd ei gweithredu yn yr hinsawdd bresennol:

“Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddarbwylo'r arweinwyr adrannol yn benodol, nid dim ond yr Arweinwyr Cydraddoldeb, ond yr Ysgrifennydd Parhaol a'i uwch dîm, eich bod, mewn gwirionedd, yn cael canlyniadau gwell, polisïau gwell, dull cyflenwi gwell, os byddwch yn rhoi blaenoriaeth i gydraddoldeb wrth lunio polisïau. Ac nad yw'n rhywbeth ychwanegol, ond ei fod yn cyflawni

canlyniadau gwell, gwasanaeth a chanlyniadau busnes gwell”
(Cyfweliad A).

Enghraifft ddiddorol o'r model sylweddol o ymgorffori cydraddoldeb ar draws adrannau yw model Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Dynol:

“Mae gan yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Dynol Uned Gydraddoldeb fwy. Ac mae'n debyg fod hynny'n cael mwy o effaith ar weithrediad” (Cyfweliad A).

Mae'r uned yn cael ei rhedeg gan swyddogion penodedig ag arbenigedd cydraddoldeb, ac ystyrir yn gyffredinol ei bod yn hwyluso dull mwy rhagweithiol at gydraddoldeb ym maes yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Dynol. Fodd bynnag, nid yw'n debygol y bydd y model hwn yn cael ei ailadrodd, yn rhannol oherwydd ffactorau allanol a staffio. Mae sefydlu unedau newydd lluosog gyda staff cydraddoldeb penodedig yn anochel yn galw am adnoddau a staff nad ydynt ar gael o bosibl. Hefyd, mae'n ganlyniad i gwango blaenorol yn cael ei amsugno yn Llywodraeth Cymru, yn hytrach nac o ganlyniad i benderfyniad bwriadol i greu uned o'r fath.

Offer Polisi 3: Offer Gweithdrefnol

Mae'r adran hon yn trafod defnydd Llywodraeth Cymru o offer gweithdrefnol i brif ffrydio cydraddoldeb, yn benodol y defnydd o: gwerthusiad ac asesiad polisi; cyllidebu; ac ymgynghori ac ymgysylltu.

Gwerthuso ac Asesu Polisi

Mae'r arfer o ddefnyddio offer asesu effaith i gyflawni amcanion prif ffrydio yn gyffredin, gyda'u defnydd wedi'i ddogfennu ar bob lefel o'r llywodraeth o sefydliadau rhyngwladol i awdurdodau lleol. Dylid nodi, o ystyried graddau'r defnydd, mae dealltwriaeth a gweithrediad asesiadau o effaith yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodaethau. Yn eu hanfod, mae offer asesu effaith yn cynnwys gwerthusiad, neu asesiad blaenorol o unrhyw gyfraith, polisi neu ymyrraeth arfaethedig er mwyn nodi, mewn dull ataliol, y graddau y gallai unrhyw benderfyniad greu canlyniadau cadarnhaol, negyddol neu niwtral i fater polisi penodol. Mewn egwyddor, mae hyn yn darparu cyfle i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried effaith eu penderfyniadau ar fater neu boblogaeth targed penodol, cyn iddynt weithredu. Er nad yw'n cael ei fabwysiadu bob amser gyda phrif ffrydio mewn golwg, gall hyn ddarparu offer

defnyddiol i'w ddefnyddio i geisio cyflawni amcanion prif ffrydio, gan ymgorffori pryderon o bosibl am fater polisi trawsbynciol wrth lunio penderfyniadau ar draws y llywodraeth.

Ceir consensws cyffredinol ynghylch eu heffeithiolrwydd posibl. Fodd bynnag, mae eu defnydd wedi denu rhywfaint o feirniadaeth. Mae hyn yn cynnwys hwyluso dull technocratig at brif ffrydio, sy'n canolbwyntio ar reolau a gweithdrefnau biwrocraidd, yn hytrach na newidiadau sylweddol i ddulliau gwneud penderfyniadau. Mewn llawer o achosion, mae gweithdrefnau asesu effaith yn cael eu beirniadu am weithredu fel cyfiawnhad dros benderfyniadau cynharach, yn hytrach na gweithredu fel offer cadarn i hysbysu datblygiad polisi (Sauer, 2018). Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyffredinol y dylid cynnal asesiadau effaith mor fuan â phosibl mewn prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau.

Mae effeithiolrwydd unrhyw offer penodol yn benodol i'r cyd-destun i raddau helaeth, ac nid yw'r defnydd o asesiadau effaith yn wahanol. Felly, nid oes unrhyw argymhellion o ran un ateb sy'n addas i bawb ar gyfer eu defnyddio. Fodd bynnag, mae yna awgrymiadau ar y ffordd orau i'w cynnal a sicrhau eu bod yn cael eu hymgorffori ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth, yn ogystal ag arweiniad cyffredinol ar gyfyngiadau o ran eu dyluniad a'u gweithrediad. Gallai ystyried yr awgrymiadau hyn, mewn egwyddor, helpu i symud asesiadau effaith i ffwrdd o fod yn offer technocratig, ac i fod yn rhywbeth mwy trawsnewidiol.

Yn gyntaf mae presenoldeb fframwaith gwleidyddol neu normadol sy'n cynnwys, ac sy'n cefnogi'r defnydd o asesiadau effaith. Mae'r OECD (2018) yn cynnwys hyn yn eu rhestr wirio o flaenoriaethau ar gyfer Asesiad Effaith ar sail Rhyw, gan awgrymu bod yn rhaid ymgorffori'r prosesau asesu yn llawn yn y prosesau datblygu polisïau a bod angen cefnogaeth ar y lefel uchaf o lywodraeth. Yn yr un modd, awgryma EIGE (2016: 19), er mwyn i asesiadau effaith gyflawni eu potensial trawsnewidiol, bod angen, "unambiguous institutional backup", gyda'r ymrwymiad hwn yn gyson ar draws y llywodraeth gyfan..

Mae'r ail yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth, a'r gallu sefydliadol, i gynnal asesiadau effaith. Mae asesiad o effaith effeithiol yn ddibynnol ar sylfaen dystiolaeth sylweddol, a fydd yn hysbysu'r broses asesu. Yn ddelfrydol, mae hyn ar ffurf data wedi'i ddadgyfuno, ystadegau, a gwybodaeth am fater polisi, neu boblogaeth darged. Un rhwystr a nodwyd yn aml yw'r diffyg data priodol sy'n atal llunwyr polisi rhag datblygu darlun cynhwysfawr o'r tirlun polisi presennol, sef cydraddoldeb yn y cyd-destun hwn, ac effaith bosibl unrhyw bolisi. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cael ei gefnogi gan arbenigedd a gallu digonol o fewn y llywodraeth i gwblhau asesiadau mewn dull effeithiol.

Y Defnydd mewn Gwerthusiadau ac Asesiadau Polisi yng Nghymru

Yn ystod blynyddoedd cynnar datganoli, nifer gyfyngedig o offer oedd ar gael i werthuso ac asesu polisiâu, Chaney (2005), er i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno'r defnydd o ganllawiau cyflwyno. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion y llywodraeth gwblhau ffurflen wrth baratoi cyflwyniadau polisi, gan gadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i hybu cyfle cyfartal. Fodd bynnag, beirniadwyd hyn, gydag awgrymiadau mai ysbeidiol oedd yr ymlyniad, gan ddatblygu i fod yn 'ymarfer ticio blwch', a bod cydymffurfiaeth o fewn y gwasanaeth sifil yn anghyson (Chaney, 2003). Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio Pecyn Offer Integreiddio Porth i Bolisiâu. Defnyddiwyd hyn i asesu effaith polisiâu newydd ar faterion polisi sy'n torri ar draws cyfrifoldebau gweinidogol, yr oedd cydraddoldeb yn elfen hanfodol ohono.

Yn dilyn Strategaeth Prif Ffrydio 2006, a roddodd fwy o bwyslais ar ddatblygu offer prif ffrydio penodol, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru offer asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar draws meysydd, sy'n golygu ystyried mwy nac un agwedd ar gydraddoldeb yr un pryd. Cyflwynwyd yr offer asesu hwn yn 2008 fel y Pecyn Offer Llundio Polisi Cynhwysol, gydag Ail Rifyn yn cael ei gyhoeddi yn 2010 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Roedd fersiwn Llywodraeth Cymru o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Llundio Polisiâu Cynhwysol, yn disgrifio proses dri cham o sgrinio, asesiad manwl ac adolygu. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o gynnal y broses hon i swyddogion ym mhob adran, gydag argymhelliad eu bod yn defnyddio'r broses ar *bob polisi ac arfer ar y cam sgrinio o leiaf* (ibid., 2010: 5).

Datblygodd y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad statudol yn dilyn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn y Ddeddf Cydraddoldeb, a Dyletswyddau Penodol Cymru a sefydlwyd wedi hynny yn 2011. Mae Adran 8 Dyletswyddau Penodol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer polisiâu ac arferion newydd, a pholisiâu presennol a oedd yn destun adolygiad. Mae Hankivsky et al. (2019) yn nodi mai'r ddyletswydd hon yw'r unig un o'i bath ym Mhrydain. Yn dilyn argymhellion gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ers 1^{af} Hydref 2017) (Grace, 2016), datblygwyd offer Asesiad Effaith Integredig newydd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Y bwriad oedd i hyn symleiddio'r broses asesu effaith, ac mae'n cwmpasu ystod o ofynion asesu effaith, gan gynnwys yr amgylchedd, hawliau plant a chydraddoldeb. O fewn y cylch gwaith eang hwn mae gofyniad o hyd i asesiadau statudol, gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gael eu cynnal.

O ran eu gweithrediad a'u heffeithiolrwydd, mae consensws cyffredinol ymhlith y cyfranogwyr yn y cyfweiliadau elitaidd, sy'n gyson â llenyddiaeth ddiweddar, nad yw'r

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u hymgorffori i'r graddau y gallent fod wedi'u hymgorffori. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn. Ceir cytundeb cyffredinol bod y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r Asesiadau Effaith Integredig, yn cael eu hystyried yn aml fel offer biwrocraidd ticio blwch yn Llywodraeth Cymru. Mae Grace (2016: 6) yn nodi hyn mewn adolygiad o'r defnydd o asesiadau effaith yn Llywodraeth Cymru, gan nodi eu bod yn aml yn gysylltiedig â, "compliance culture", ac nad oedd eu gwerth yn cael ei gydnabod yn eang ar draws y llywodraeth. Codwyd pryderon tebyg gan Chwarae Teg (2019: 38), gan ddatgan "yn anffodus, mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wedi tueddu, yn Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, i fod yn ymarferion ticio blwch; ymarfer ar sail cydymffurfio sydd heb ddadansoddiad manwl".

Yn ystod y cyfweiliadau elitaidd, awgrymwyd y gellir ystyried bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn bennaf yn ddull o gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol yn y Ddeddf Cydraddoldeb, yn hytrach nac fel cyfle i sicrhau dealltwriaeth lawn, a mynd i'r afael ag effaith bosibl penderfyniad ar gydraddoldeb, gydag un cyfwelai yn datgan:

"Rwy'n poeni bod asesiadau effaith yn cael eu hystyried fel ffordd o gyflawni goblygiadau o dan y dyletswyddau" (Cyfweliad B).

Pwysleisiwyd ymhellach y posibilrwydd y gallai asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb chwarae rôl fwy sylweddol ym mhrosesau polisi Llywodraeth Cymru:

"Nid yw'n ymarfer ticio blwch, nid yw'n golygu cyflawni goblygiadau o dan y Ddeddf yn unig. Mewn gwirionedd mae'n dangos, os ydym am sicrhau Cymru fwy cyfartal, sydd yn un o'r nodau o dan Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae hefyd yn un o nodau ein hadferiad o'r pandemig. Os ydym am sicrhau Cymru fwy hyderus, cyfartal, mwy cydnerth, gyda sgiliau gwell, yna mae angen i ni fod yn glir iawn bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddull o gyflawni hynny" (Cyfweliad A).

Yn ogystal â'u nodweddion fel offer biwrocraidd, mae'r canfyddiadau yn awgrymu y gallai agweddau ymarferol ar gyfer defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb rwystro eu cyflwyniad. Yn gyntaf, roedd pryderon ynghylch cyfyngiadau amser ac effaith hyn ar allu swyddogion Llywodraeth Cymru i gynnal asesiadau cadarn:

"Un o'r agweddau sy'n gweithio yn erbyn asesiadau effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb yw amserlenni y mae'n rhaid i lunwyr polisi eu dilyn, sydd, yn ôl union natur y sefydliad, yn hynod wleidyddol. Maent yn gyfnodau byr iawn o amser ar adegau, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i gynnal asesiad llawn o'r effaith" (Cyfweliad D).

Mae hyn hefyd yn cyfeirio at ail feirniadaeth, fwy cyffredinol o'r defnydd o Asesiadau Effaith, sef eu cysylltiad â modelau mwy rhesymegol, mwy cynhwysfawr ar gyfer llunio polisiau, nad ydynt o reidrwydd yn ymdebygu dulliau bywyd go iawn o wneud penderfyniadau. Mae arfer da yn argymhell yn gyffredinol y dylid cynnal Asesiadau Effaith, "in the very early stage of policymaking" (EIGE, 2016: 6). Nid yw hyn bob amser yn wir, yn Llywodraeth Cymru ei hun, ac wrth eu gweithredu'n ehangach:

"Y ffordd y cânt eu defnyddio'n aml, rhan o'r ffordd yn ystod y broses o wneud penderfyniad, rydych yn mynd i fod yn gyfyngedig....o ran eu potensial trawsnewidiol, " (Cyfweiliad C).

Trydydd ffactor oedd y lefel o ddata sydd ar gael i swyddogion Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r lefel berthnasol o allu dadansoddol yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi nodi diffyg gallu dadansoddol o'r fath fel rhwystr mawr i bolisiau, mewn gwledydd bach yn fwy cyffredinol, ac yn benodol yng Nghymru (Rabey, 2015). Trafodwyd y gallu dadansoddol cyfyngedig hwn, a'r prinder data priodol dilynol ar gydraddoldeb, yn ystod yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol (Chwarae Teg, 2019).

Yn ogystal ag ail-ddatgan argymhellion blaenorol i weithio i ddatblygu gallu dadansoddol yng Nghymru, bu i'r cyfweleion drafod hefyd y camau amrywiol y gellir eu cymryd i wella argaeledd data ar gydraddoldeb:

"Mae'n rhaid sefydlu gofynion i gasglu data ac mae'n rhaid iddynt fod yn ofynion rhesymol i gasglu data hefyd. Rhesymol o ran rhesymol i'r rhai sy'n gyfrifol am gasglu'r data. Mae'n rhaid bod systemau atebolrwydd ar waith i wneud yn siŵr bod data yn cael ei gasglu pan fydd angen" (Cyfweiliad C).

Yn ogystal â chasglu'r data, nodwyd hefyd y ffordd y mae data yn cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio, yn benodol gordefnydd ymddangosiadol ar ddata meintiol:

"Y rhwystr gwirioneddol yw pan fydd y data meintiol hwn yn cael ei ystyried fel y safon aur ac nid yw'r data ansoddol yn cael ei ymgorffori yn hynny" (Cyfweiliad C).

Yn ogystal â gallu Llywodraeth Cymru i gasglu a defnyddio data, rhwystr arall a nodwyd yn ystod y cyfweiliadau, yn hyn o beth, oedd ansawdd y data sydd ar gael ar hyn o bryd. Trafododd un cyfweiliad hyn, yn benodol yng nghyd-destun y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac argaeledd data penodol am Gymru:

“Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i fod yn ffactor rhwystrol ar lawer ystyr. Ei gylch gwaith yw Cymru a Lloegr, fel nad yw datganoli wedi digwydd o gwbl, ac nid yw bob amser yn dda iawn am ddarparu ystadegau am Gymru yn unig. Rwy’n credu fod y cyfle gwleidyddol i siapio gwaith y Swyddfa Ystadegau Gwladol o safbwynt Cymreig yn gyfyngedig, oherwydd mai creadur San Steffan ydyw i raddau helaeth...nid wyf yn gweld rheswm da mewn gwirionedd pam y dylem barhau gyda’r model hwn o’r ONS yn 2021, sy’n dyddio ers cyn datganoli, pan mae gennym Senedd iawn a’n hanghenion casglu data a dadansoddi data penodol ein hunain”
(Cyfweliad D).

Mae’n ymddangos bod cynnydd mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o botensial yr Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn cael effaith drawsnewidiol, arwyddocaol. Yn benodol, yng nghyd-destun y cyfnod adfer yn dilyn COVID-19, fel dull o nodi a mynd i’r afael ag effaith anghymesur y pandemig ar grwpiau penodol:

“Diddorol iawn, mewn gwirionedd, fel prawf cyflawn o’r ffordd rydym wedi rheoli’r coronafeirws....rwy’n credu y bu ymdrech sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i brif ffrydio Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, sef yr hyn sy’n digwydd, wrth wneud penderfyniadau bob dydd...rwy’n credu fod swyddogion wedi dysgu llawer o hyn mewn gwirionedd, yn nhermau ystyr a diben a chanlyniadau’r Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn y flwyddyn ddiwethaf”
(Cyfweliad A).

Cyllidebu

Mae ymgorffori ystyriaeth o fater polisi trawsbynciol mewn prosesau cyllidebu yn ddull sefydledig o brif ffrydio. Mewn egwyddor, mae hyn yn cynnwys agweddau gwariant a refeniw proses gyllidebol. Er, yn ymarferol, rhoddir blaenoriaeth i ymgorffori’r ystyriaeth o gydraddoldeb mewn gwariant. Er enghraifft, canfu Quinn (2017), wrth adolygu cyllidebu rhywiol yn Ewrop, bod y rhan fwyaf o’r dangosyddion cyllidebu rhywiol wedi canolbwyntio ar agwedd gwariant y gyllideb. Mae rhai gwledydd wedi profi eithriadau i’r tuedd hwn. Mae Sweden ac Awstria wedi comisiynu gwaith ar effaith polisi refeniw ar ryw, er nad yw’r arfer hwn yn un eang.

Cyllidebu Cydraddoldeb yng Nghymru

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu dull llawn o gyllidebu cydraddoldeb, mae wedi cymryd camau adnabyddadwy, waeth pa mor fychan, at ymgorffori cydraddoldeb yn ei phrosesau cyllidebu.

Yr enghraifft gyntaf yw Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE), a sefydlwyd i gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn ei hymdrechion i ymgorffori cydraddoldeb mewn prosesau cyllidebol (O'Hagan et al., 2018). Cylch gwaith swyddogol y grŵp yw: darparu cymorth a chefnogaeth i wella ystyriaethau cydraddoldeb mewn cyllidebau; mapio, a gwella, tystiolaeth o gydraddoldeb a'r sefyllfa economaidd gymdeithasol; cynorthwyo i ddadansoddi a deall tystiolaeth o gydraddoldeb; cyfrannu i gynyddu ymrwymiad ac ymwybyddiaeth o ystyriaethau prif ffrydio cydraddoldeb a thlodi mewn prosesau cyllidebol; a chynorthwyo i adolygu asesiadau o'r gyllideb yn barhaus. Gellir ystyried bod sefydlu Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn gam cadarnhaol, er mai cyfyngedig fu ei effeithiolrwydd i helpu i ymgorffori cydraddoldeb mewn prosesau cyllidebol. Nododd Chwarae Teg (2018), yng Ngham Un yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol, gyfyngiadau a oedd yn cynnwys: methiant i gwrdd yn rheolaidd a diffyg rhaglen waith neu amcanion wedi'u ffurfioli. Roedd pryderon hefyd ynghylch diffyg gallu ac adnoddau, gydag aelodaeth anghyson yn cyfrannu at ddiffyg arbenigedd yn y grŵp. Cafwyd ceisiadau niferus hefyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb am fwy o wybodaeth am rôl Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, a gwelliannau i'w lefel o ymgysylltiad â phrosesau cyllidebol. Pwysleisiwyd y materion hyn ymhellach gan Chwarae Teg (2019), yng Ngham Dau yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol, gan nodi ei bod yn anodd mesur y graddau yr oedd BAGE yn gweithio i siapia cynigion cyllidebu terfynol.

Yr ail enghraifft o Lywodraeth Cymru yn gweithio i ymgorffori cydraddoldeb mewn prosesau cyllidebu yw cyflwyniad Asesiadau Effaith Integredig Strategol (AEIS). Mae hyn yn ceisio dadansoddi penderfyniadau gwario a gymerir fel rhan o'r gyllideb flynyddol drwy nifer o lensys, er mwyn deall eu heffaith bosibl. Mae'n cynnwys cydraddoldeb, er bod hynny'n rhan o brosesau ehangach o werthuso effaith y gyllideb ar: hawliau plant; yr iaith Gymraeg; newid yn yr hinsawdd; prawf fesur polisïau o safbwynt anghenion cefn gwlad; iechyd; bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Mae hyn wedi arwain at bryderon bod cydraddoldeb wedi'i wanhau yn y broses AEIS a bod yr AEIS eu hunain yn gweithredu fel elfen ychwanegol, yn hytrach nac fel elfen graidd o gyllidebu. Beirniadwyd y defnydd o AEIS yn 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019) lle nodwyd diffyg eglurder ynglŷn â'r camau y gellir eu cymryd i wella AEIS, ac a fyddai defnyddio asesiadau effaith unigol yn hwyluso tryloywder.

Yn amlwg, nid yw Cymru wedi gweithredu dulliau cyllidebu cydraddoldeb sylweddol o bell ffordd, gydag ymyriadau'n cael eu beirniadu oherwydd eu heffaith gyfyngedig. Fodd bynnag, mae yna gyfle sylweddol i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r dull hwn ymhellach, gydag enghreifftiau o arfer da i dynnu arnynt o lywodraethau lefel meso eraill a'r gwaith addawol sy'n cael ei wneud i ymgorffori cydraddoldeb rhywiol mewn prosesau cyllidebu yng Nghymru. O ran y cyfle i Lywodraeth Cymru ddatblygu ei ddull o gyllidebu cydraddoldeb ymhellach, noda O'Hagan et al., (2019), bod y cyfleoedd polisi presennol yng Nghymru yn darparu'r amodau ffafriol yr ystyrir eu bod yn galluogi cyllidebu effeithiol. Yn benodol, maent yn amlygu profiad Llywodraeth Cymru o ddefnyddio dulliau amrywiol sy'n gysylltiedig â chyllidebu, er enghraifft AEIS a'r ymrwymiad cryf i gydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb yn fwy cyffredin, ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae enghreifftiau o gyllidebu rhywiol hefyd yn amlwg mewn llywodraethau is-genedlaethol. Mae datganoli wedi darparu cyfleoedd i fentrau cyllidebu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, gydag awgrymiadau y gallai hyd yn oed fod yn fwyaf effeithiol mewn llywodraeth lefel meso, yn benodol mewn achosion lle mae awdurdod gwario sylweddol wedi'i ddatganoli i'r lefel is-wladwriaethol (Quinn, 2017). Dwy enghraifft amlwg o hyn yw achosion yr Alban ac Andalusia.

Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi pwysleisio'r angen i ymgorffori pryderon ynghylch cydraddoldeb o fewn prosesau cyllidebol mewn adolygiadau olynol o'r Gyllideb Ddrafft (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2020; Senedd Cymru, 2021). Yn ogystal, yn dilyn yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fabwysiadu dull cyllidebu rhywiol fel rhan o'r Cyfrif Dysgu Personol peilot dwy flynedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2020). Er bod yr ymdrechion hyn wedi'u hanelu'n bennaf at fynd i'r afael â maes cydraddoldeb unigol, mae Steccolini (2019) yn nodi potensial dull o'r fath i hysbysu prosesau cyllidebu ar draws amrediad o feysydd cydraddoldeb ac i gymryd camau i nodi, a mynd i'r afael â ffynonellau eraill o anghydraddoldeb drwy gyllidebu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod potensial y cynllun peilot hwn i hysbysu dull cyllidebu cydraddoldeb ehangach, gan ddatgan yn y 'Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2020b) y byddent yn ystyried sut y gall y cynllun peilot hysbysu gwaith ar nodweddion gwarchodedig eraill.

Ymgynghori

Offer arall ar gyfer gweithredu proses brif ffrydio yw ymgysylltu ac ymgynghori â chyfranogwyr a sefydliadau cymdeithas sifil. Mae prif ffrydio yn fwy tebygol o lwyddo os bydd wedi'i hysbysu a'i ddatblygu gan ymgysylltiad â chymdeithas sifil. Pwysleisir

rôl ymgysylltu ac ymgynghori yn aml gan eiriolwyr y model cyfranogol-democrataidd o brif ffrydio (Nott, 2000). Yr un pryd, nodir yr angen am ymgynghoriad effeithiol mewn dulliau 'biwocrataidd arbenigol', er bod ganddo rôl lai canolog. Mae llenyddiaeth ar strategaethau llywodraeth gyfan, pwyllgorau a chyrff prif ffrydio canolog, ac offer gweithdrefnol arall gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, i gyd yn pwysleisio'r angen am ymgynghori gyda rhanddeiliaid perthnasol wrth wneud penderfyniadau a gweithredu polisiau.

Prif fudd ymgynghori yw, drwy ehangu, ac agor prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisiau, gellir ystyried opsiynau polisi mewn ffyrdd mwy beirniadol, gellir helaethu lleisiau grwpiau ymylol a heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth, a gall mentrau prif ffrydio fynd i'r afael yn fwy cywir ac effeithiol ag anghenion y bobl y bwriedir eu helpu. Yn ei hanfod, mae hyn yn cydnabod bod gwybodaeth 'leyg' poblogaethau targed a chynrychiolwyr grwpiau perthnasol yn werthfawr, yn hytrach na breinio gwybodaeth arbenigol cyfranogwyr yn y llywodraeth. (Osborne, Bacchi, a MacKenzie, 2010). Mae Debusscher a Van der Vleuten (2012: 335) yn dadlau bod diffyg ymgynghoriaeth effeithiol nid yn unig yn niweidiol i rymuso lleisiau neu grwpiau ymylol, ond hefyd: "it is also harmful for the relevance of policies, because what shows up as a problem and solution for policymakers is limited by their institutional culture and predetermined goals".

Mae rhywfaint o amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd ymgynghori, mewn egwyddor ac yn ymarferol. Mae Squires (2005), er enghraifft, yn awgrymu y gallai hwyluso prosesau ymgynghori ffurfiol gyda grwpiau wedi'u trefnu arwain at hanfodoli hunaniaeth grwpiau, a methiant o ran casglu cynrychiolaeth gywir o sylwadau ac anghenion cymuned. Mae yna ystyriaethau technegol ac ymarferol y mae'n rhaid eu hystyried hefyd, yn benodol sicrhau bod ymgynghoriadau yn cael effaith uniongyrchol ar bolisi, a galluogi mynediad at brosesau ymgynghori. Dylai llywodraethau weithio i greu dolen adborth rhwng ymgynghoriad a'r broses bolisi, gan sicrhau bod ymarferion ymgynghori yn bwydo'n glir i brosesau gwneud penderfyniadau ac allbynnau polisi (OECD, 2018). Gallai hyn hefyd helpu i osgoi ymdeimlad ymhlith cyfranogwyr a sefydliadau cymdeithas sifil eu bod, er yr ymgynghorir â hwy'n barhaus, yn cyfrannu amser, ynni ac adnoddau i broses lle nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu clywed.

O ran yr olaf, mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r graddau y mae prosesau ymgynghori yn agored ac yn gynrychioliadol. Yn rhy aml nid yw ymgynghoriadau'n ddigon cynhwysol oherwydd dyluniad gwael, gan fethu â sicrhau cyfranogiad amrediad eang o bobl neu grwpiau, a gweithio i freinio mewnbwn rhanddeiliaid penodol. Mae'r OECD (2018: 54) yn argymhell llywodraethau i ddatblygu sianelau i, "promote representative consultation of stakeholders and benefits of proposed

policies, programmes and laws”, a sicrhau nad yw'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r un grwpiau neu gyfranogwyr.

Ymgynghori ac Ymgysylltu yng Nghymru

Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i weithredu a hwyluso'r elfen gyfranogol-ddemocrataidd o brif ffrydio. Mae gweithio mewn partneriaeth a syniadau ar lywodraethu cynhwysol wedi bod yn nodwedd allweddol o drafodaethau ac arfer Llywodraethu Cymru, yn dilyn datganoli (Cole a Stafford, 2015). Fe greodd datganoli nifer o gyfleoedd i ymgorffori strwythurau a gweithdrefnau mewn sefydliadau yng Nghymru, i hwyluso dull cynhwysol a chyfranogol at bolisiau. Fel y nododd un cyfwelai:

“Roedd Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod angen dull ymgynghori arnynt. Roedd angen iddynt ddeall lleisiau, os mynnwch, grwpiau amrywiol a oedd dan anfantais” (Cyfweliad B).

Mae sianelau ar waith y bwriedir iddynt feithrin mwy o gyfranogiad cymdeithas sifil wrth lunio polisiau, yn bennaf Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, y weithdrefn deisebau cyhoeddus, Pwyllgor Deisebau'r Senedd a'r Rhaglen Ariannu Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Hefyd, gallai'r cyd-destun y mae Llywodraeth Cynllun yn gweithredu ynddo, ac yn benodol maint bychan Cymru a lleoliad Llywodraeth Cymru o fewn rhwydwaith o gyfranogwyr a sefydliadau, gynorthwyo a hwyluso ymgysylltiad gyda sefydliadau cydraddoldeb cymdeithas sifil.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod y strwythurau a'r gweithdrefnau hyn wedi galluogi mwy o ymgysylltiad gyda sefydliadau cydraddoldeb cymdeithas sifil, a chyfranogiad mewn prosesau polisi, fe nododd yr adolygiadau cynnar nifer o heriau. O'r cychwyn cyntaf, cafwyd beirniadaeth eang, o fewn y llywodraeth a thu hwnt, a oedd yn awgrymu, er gwaethaf yr ymdrechion i gynyddu natur agored y system o lunio polisiau yng Nghymru, mae gallu cyfyngedig ar ran cymdeithas sifil yn niweidiol i brosesau llunio polisiau cynhwysol ehangach, ac ymdrechion prif ffrydio yn fwy penodol. Mae Morgan a Rees (2001: 145) yn datgan: "the Welsh governance system now enables much greater accessibility, at least to those with the organizational capacity to capitalize on the opportunities which are newly available". Nodwyd hyn unwaith eto gan Adolygiad y Comisiwn Annibynnol o'r Sector Gwirfoddol, a oedd yn datgan nad oedd gan rannau o'r sector gwirfoddol a chymunedol, yn benodol grwpiau cydraddoldeb, y gallu a'r gefnogaeth i'w galluogi i ymgysylltu'n sylweddol wrth lunio polisiau (ICRVS, 2004 dyfynnwyd yn Chaney, 2006). Nodwyd amseriad yr ymgynghoriadau hefyd fel maes i'w wella, lle'r oedd cyflymder yr ymgynghoriadau a'r dulliau o lunio polisiau yn golygu mai dim ond

sefydliadau medrus ag adnoddau digonol allai ymgysylltu â'r llywodraeth (Day, 2006).

Mynegwyd pryderon yn yr Adolygiad Prif Ffrydio Cydraddoldeb (Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2004) ynglŷn â'r diffyg eglurder yn y prosesau ymgynghori, eu hygyrchedd a'r amrediad o ymgysylltu â rhanddeiliaid cymdeithas sifil yn y prosesau ymgynghori. Awgryma'r adolygiad hefyd y gellir gwneud mwy i sicrhau bod y prosesau ymgynghori yn ymatebol i anghenion a gofynion penodol gwahanol grwpiau lleiafrifol. Yn ogystal, ystyriwyd ei bod yn hollbwysig i'r Cynulliad ymgysylltu gydag ystod mor eang â phosibl o bobl, yn hytrach na *dim ond ysgrifennu at y cyfranogwyr arferol* (ibid.: 58). Nodwyd pryderon tebyg yn 'Adroddiad Prosiect yr Adolygiad Polisi' (Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2007) a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i asesu'r graddau yr oedd cydraddoldeb wedi'i ymgorffori ym mholisiau Llywodraeth Cymru. O ran polisiau, canfu: "did not always display a sufficient understanding of the need to consult with diverse audiences" (ibid.: dim rhif tudalen). Cyflwynir y ddadl hon gan Royles (2007) hefyd, sy'n datgan, o ganlyniad i wendidau cymharol elfennau penodol o gymdeithas sifil yng Nghymru, roedd y llywodraeth wedi datblygu mwy o gysylltiadau ymgynghori gyda, ac wedi breinio, mewnbwn sefydliadau penodol cymdeithas sifil. Nododd adolygiad 2007 ddiffyg dilyniant hefyd, neu effaith y gellir ei hadnabod yn glir, o ymarferion ymgynghori i strategaethau cyhoeddedig. Nododd yn aml, *nid oedd y dogfennau terfynol yn dangos sut yr oedd y penderfyniadau cydraddoldeb wedi'u cefnogi gan y Broses ymgynghori* (Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 2007: dim rhif tudalen).

Gellir dadlau bod y ffocws hwn ar weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu gyda chyfranogwyr a grwpiau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth yn elfen unigryw, ddiffiniol o lywodraethu yng Nghymru ac o ganlyniad i hynny mae'n cynrychioli elfen sylfaenol o brif ffrydio yng Nghymru. Mae Keating et al. (2009: 10) yn nodi "Welsh way" o weithio mewn partneriaeth, sy'n manteisio ar faint bychan a rhwydweithiau polisi dwys Cymru a dyhead ar ran Llywodraeth Cymru i feithrin dulliau o gydweithio, a gallu polisi cyfyngedig. Nodwyd hyn hefyd yn ystod cyfweiliadau:

"Byddwn yn dweud bod dwyster rhwydweithiau a threfniadau partneriaeth, unwaith eto, yn agwedd amlwg o lywodraethu yng Nghymru, a allai wrthgyferbynnu â chyd-destunau eraill" (Cyfweiliad D).

Fodd bynnag, mae penderfynu a yw'r *ffordd Gymreig* hon wedi arwain at arferion prif ffrydio gwell ai peidio hyd yma yn gwestiwn arall. Wrth archwilio'r graddau y mae'r model lywodraethu hwn (a ddylai, mewn egwyddor, ategu dulliau prif ffrydio effeithiol) wedi arwain at arferion gwell, ceir ymdeimlad cyffredinol, er bod gwelliannau wedi'u gwneud, y gellir gwneud llawer mwy:

“Roedd y weledigaeth yno, ond nid wyf yn credu ei bod wedi'i chyflawni'n llawn...Rwy'n credu bod camau mawr wedi'u gwneud i'r ffordd y mae ymgynghoriadau polisi yn cael eu cynnal” (Cyfweliad D).

Mae canfyddiadau yn awgrymu, er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae llawer o'r rhwystrau a oedd yn atal, neu a oedd yn cymhlethu, mwy o gynwysoldeb yn nulliau llunio polisiâu Llywodraeth Cymru, ac ymgysylltu'n effeithiol gyda sefydliadau cydraddoldeb, yn parhau i fod yn bresennol i raddau. Mae pryderon ynghylch breinio grwpiau penodol yn parhau, er y cydnabuwyd bod y broses o gydbwysu ymarferoldeb ymgynghoriad, gyda gallu llywodraeth i ymgynghori ac ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu polisiâu, yn un y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ei rheoli'n weithredol:

“Mae'n beth anodd iawn i'w gyflawni. Sut ydych chi'n creu cysylltiadau effeithiol? Yn ôl ffigurau WCVA, mae yna tua 33,000 o sefydliadau'r trydydd sector. Sut allwch chi greu trefniadau sefydliadol i rymuso a rhoi llais iddynt wrth lunio polisiâu, heb i'r strwythurau a'r trefniadau cyfan fod yn or-gymhleth a biwrocraidd?” (Cyfweliad D).

Nododd cyfwelai arall:

“Ni fyddent yn gallu gweithredu o reidrwydd oni bai am Lywodraeth Cymru. Yn amlwg, yr hyn a allai ddigwydd fel rhan o hyn yw blaenoriaethu, os mynnwch, rhai sefydliadau cyn rhai eraill” (Cyfweliad C).

Mae ffactor allweddol yma yn ymwneud â gallu llawer o sefydliadau cymdeithas sifil, ac effaith hyn ar eu gallu i ymgysylltu â phrosesau llunio polisiâu Llywodraeth Cymru. Mae llawer o grwpiau cymdeithas sifil yng Nghymru, yn arbennig y rhai sy'n ymdrin â chydraddoldeb, yn sefydliadau bach, llawr gwlad, gydag amser a gallu cyfyngedig i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru. Felly, mae rôl Llywodraeth Cymru i gefnogi a chynnwys y sefydliadau hyn wrth lunio polisiâu yn hollbwysig, os ydynt am ymgorffori lleisiau a barn y grwpiau hyn wrth wneud penderfyniadau a llunio polisiâu:

“Mae angen i ni fod yn ystyriol o'r ffaith, fel rhan o brif ffrydio llwyddiannus, bod angen i ni barhau i sicrhau bod ymgysylltiad gyda'r sefydliadau llawr gwlad hynny a'r arbenigwyr hynny drwy brofiad, ar gamau cynnar iawn llunio'r agenda bolisi honno. Rwy'n credu ei bod yn bosibl. Ond bydd angen buddsoddiad. Nid oes unrhyw ffordd i osgoi hynny” (Cyfweliad C).

Mae'r pwyslais hwn ar weithio mewn partneriaeth ac ymgynghori, ynghyd â'r adnoddau cyfyngedig a'r cyfyngiadau amser ar grwpiau llai, wedi arwain at elfen o ddadurithiad ymhlith rhai gyda'r broses ymgynghori, gan nodi 'blinder ymgynghori'. Mae ymdeimlad hefyd, er eu bod yn treulio swm sylweddol o'u hamser yn ymateb i lawer o ymgynghoriadau polisi, maent yn cael anhawster i weld sut mae eu mewnbwn wedi effeithio ar benderfyniadau'r llywodraeth. Dywedodd un cyfwelai:

“Yn sicr, bu llawer o sôn dros y blynyddoedd, gan sefydliadau cydraddoldeb am flinder ymgynghori, nid yn unig yn nhermau ymgysylltu a thrafodaethau, ond hefyd ymateb i ymgynghoriadau polisi....Gallent dreulio eu hamser cyfan yn ymateb i ymgynghoriadau polisi, yn ddi-dâl, a chanfod nad ydynt yn gwneud y peth y cawsant eu sefydlu i'w wneud yn y lle cyntaf” (Cyfweliad B).

Un dull o fynd i'r afael â hyn yw drwy nodi'n glir sut mae'r ymgynghoriad yn bwydo i mewn i'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisiau. Mae hyn yn cynnwys eglurder ynghylch y ffordd y mae gwybodaeth a gasglwyd o ymgysylltiad yn cael ei dehongli a'i chymhwyso. Fel y nodwyd mewn gwaith ymchwil blaenorol, mae tueddiad o fewn Llywodraeth Cymru, er nad yw hyn yn unigryw i Gymru, i flaenoriaethu data meintiol (Chwarae Teg, 2019). Cyfeiriwyd at hyn hefyd yn y cyfweliadau:

“Mae ymgysylltiad yn gweithio'n llawer gwell ac mae'n digwydd yn gynharach yn y broses. Mae beth sy'n digwydd i'r wybodaeth honno a sut mae'n cael ei gwerthfawrogi, ei phwysoli a'i defnyddio yn gryn ddirgelwch” (Cyfweliad B).

Yn olaf, yn debyg iawn i'r ymwybyddiaeth gynyddol am rôl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae canfyddiadau yn awgrymu bod y defnydd o ymgynghoriadau ac ymgysylltu, a'u rôl, wedi'u pwysleisio yn ystod y pandemig COVID-19:

“Rwy'n credu bod cyhoeddi ymatebion polisi gan Lywodraeth Cymru wedi ychwanegu tryloywder. Rwy'n credu bod dulliau electronig o anfon ymatebion i'r ymgynghoriadau polisi wedi gwella'r sefyllfa. A hefyd mae gwaith y gangen ddeddfwriaethol ac ymholiadau pwyllgorau. Rwy'n meddwl am y ddau ymchwiliad diweddar ar COVID. Maent yn dangos egni ynghylch ymgysylltu â'r trydydd sector a chymdeithas sifil wrth lunio polisiau, sydd i'w groesawu, ac sy'n eithaf trawiadol” (Cyfweliad D).

“Ac yna mae'r sefydliadau rydym yn eu hariannu, sydd hefyd yn ein hysbysu ac yn ymgysylltu â ni. Mae ein partneriaid yn cael effaith

aruthrol ar hyn. Yn ystod y pandemig, roeddem yn ymgysylltu llawer mwy, yn rhithiol, gyda Fforwm Hil Cymru, y Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, Pwyllgor Cydraddoldeb TUC Cymru. Felly, mae yna lawer o wersi i'w dysgu” (Cyfweliad A).

Gellir gweld enghraifft glir o werth yr ymgynghoriad hwn ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i atal Atodlen 12 Deddf y Coronafeirws:

“Rydym ar fin cyhoeddi ein bod yn atal Atodlen 12 Deddf y Coronafeirws, oherwydd bod hynny'n galluogi awdurdodau lleol i gyfyngu pecynnau gofal, oherwydd effaith y coronafeirws yn nhermau hyblygrwydd a threfniadau ariannol...ceir adborth bod hyn wedi cael effaith niweidiol ar bobl anabl, bu ymgynghoriad. Felly bydd hyn yn cael ei atal” (Cyfweliad A).

Casgliadau ac Argymhellion

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o nodweddion sydd, mewn egwyddor, yn gydnaws â phrif ffrydio cydraddoldeb. Er y gallai hyn fod yn wir, nid yw presenoldeb y nodweddion hyn yn ei hanfod yn golygu y bydd gweithredu offer polisi i hyrwyddo prif ffrydio yn effeithiol. Ac ni fyddent yn gwneud iawn am weithrediad is na'r safon, nac yn lliniaru'r cyfyngiadau a wynebir gan Lywodraeth Cymru, wrth ddatblygu a gweithredu polisïau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Llywodraeth Cymru, dros amser, wedi defnyddio offer polisi i brif ffrydio cydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw cyflwyno'r rhain wedi bod yn broses syml o bell ffordd, gydag effeithiolrwydd yn cael ei gyfyngu gan ffactorau amrywiol. Er nad bwriad yr adroddiad hwn yw darparu argymhellion polisi penodol i liniaru'r cyfyngiadau hyn, wrth gyfuno canfyddiadau'r adroddiad gyda llenyddiaeth academiaidd a llwyd, cyflwynir nifer o awgrymiadau a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol.

Awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol

Offer Cyfathrebu

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio i gyfleu gweledigaeth glir a chyson ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb ar draws y llywodraeth. Gellir ymgorffori hyn yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a dylai fod yn gyson ar draws dogfennau strategol allweddol.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gweithio at amcanion clir a chyson, gyda chylchoedd gwaith a chyfrifoldebau sydd wedi'u nodi'n glir ar gyfer gweithredu, cwblhau a monitro. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Amcan Cydraddoldeb statudol yn gam cadarnhaol, er bod cyfle i fod yn fwy uchelgeisiol mewn cysylltiad â'r amcan a bennir gan y llywodraeth ei hun.
- Mae prif ffrydio cydraddoldeb yn galw am newid sylweddol o'r sefyllfa bresennol, yn nhermau safbwynt ac arfer. Mae potensial i gyfleu'n fwy effeithiol beth yw llywodraeth sy'n gweithio i brif ffrydio cydraddoldeb, sut mae'n ymddwyn a sut mae'n gweithredu.

Offer Sefydliadol

- Er bod rôl pwyllgorau wedi lleihau yn dilyn newidiadau i strwythur pwyllgorau yn 2011, mae'n bwysig eu bod yn darparu'r arweinyddiaeth, y gynrychiolaeth a'r elfen graffu lefel uchel sy'n angenrheidiol ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb.
- Mae presenoldeb corff penodedig sy'n gweithredu'n dda o fewn y llywodraeth i hyrwyddo gwaith trawsbynciol, a chefnogi'r broses o brif ffrydio cydraddoldeb, yn hollbwysig. Yn ddelfrydol bydd gan y corff hwn rôl a chylch gwaith clir, adnoddau digonol a'r hyblygrwydd angenrheidiol i gyflawni ei fandad yn effeithiol. Gellir cymryd camau yn hyn o beth i egluro neu addasu rôl a chylch gwaith y Tîm Cydraddoldeb, oherwydd bod pryderon nad oes ganddo adnoddau digonol, eu bod wedi'u llethu â gwaith, a bod diffyg cydberchnogaeth o gydraddoldeb, sy'n golygu ei fod yn cael ei ystyried fel y tîm sy'n bennaf gyfrifol am hyrwyddo cydraddoldeb yn y llywodraeth.
- Mae gan y rhan fwyaf o adrannau Arweinwyr Cydraddoldeb, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ymgymryd â'r rôl hon ar sail rhan amser. Yn ddelfrydol, bydd y swyddogion hyn yn gweithio i ddosbarthu arfer da, hyrwyddo cydraddoldeb yn eu hadrannau perthnasol a gweithio ar draws y llywodraeth i annog a strwythuro dialog rhyngadrannol. Mae cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau i gyflawni hyn yng Nghymru, gan fod yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd, gan gynnwys cyfyngiadau amser; y lefel o arbenigedd ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb mewn adrannau; diffyg uwch aelodau o staff a'r anhawster o fabwysiadu rôl ragweithiol wrth ddatblygu polisiau.

Offer Gweithdrefnol

- I fod yn effeithiol, ni ddylid ystyried Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel ymarfer biwrocrataidd neu ymarfer 'ticio blwch'. Mae yna gamau y gellir eu cymryd i helpu i sicrhau hyn, gan gynnwys: hyfforddiant staff a chodi ymwybyddiaeth; eu defnyddio mor fuan â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau; a sicrhau bod lefel ddigonol o ddata ar gael i swyddogion y llywodraeth.
- Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i ymgynghori ac ymgysylltu â chyfranogwyr a grwpiau cydraddoldeb, fel rhan o'r broses o lunio polisiau. Dylid cymryd camau i sicrhau bod y broses hon yn hygyrch, nad yw wedi'i chyfyngu i'r 'cyfranogwyr arferol' a bod grwpiau cymdeithas sifil â gallu cyfyngedig yn cael eu cefnogi ac yr ymgysylltir â hwy yn ystod ymgynghoriadau.
- Dylai'r llywodraeth esbonio'n glir sut mae gwaith ymgynghori yn bwydo i'r gwaith o ddatblygu polisiau, a sut mae'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd yn

ystod ymgynghoriad yn cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio, wrth wneud penderfyniadau.

Cyfeiriadau

Bishop, K., a Flynn, A. (2005) **Sustainable Development in Wales: Schemes and Structures, Debate and Delivery**. Contemporary Wales, 17(1), 92-112.

Bouckaert, G., Peters, B. G., a Verhoest, K. (2010) **The Main Argument - Specialization without Coordination is Centrifugal**. Yn Bouckaert, G.P., B. G., a Verhoest, K. (gol). The Coordination of Public Sector Organisations: Shifting Patterns of Public Management, 3-12. Llundain: Palgrave Macmillan.

Candel, J. J. (2017). **Holy Grail or inflated expectations? The success and failure of integrated policy strategies**. Policy Studies, 38(6), 519-552.

Carey, G., Buick, F., Pescud, M., a Malbon, E. (2017). **Preventing dysfunction and improving policy advice: the role of intra-departmental boundary spanners**. Australian journal of public administration, 76(2), 176-186.

Carey, G., a Crammond, B. (2015). **What works in joined-up government? An evidence synthesis**. International Journal of Public Administration, 38(13-14), 1020-1029.

Casado-Asensio, J., a Steurer, R. (2014). **Integrated strategies on sustainable development, climate change mitigation and adaptation in Western Europe: communication rather than coordination**. Journal of Public Policy, 437-473.

Cejudo, G. M., a Michel, C. L. (2017). **Addressing fragmented government action: coordination, coherence and integration**. Policy Sciences, 50, 745-767.

Chaney, P. (2003). **Gender Mainstreaming: The Case of the Welsh Assembly**. Prifysgol Bryste.

Chaney, P. (2005). **"The Absolute Duty": The Rhetoric and Reality of Mainstreaming Equality in Post-devolution Wales**. Papur a Gyflwynwyd i Gyfres Seminar ESRC 'Polisi Cyhoeddus, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng nghyd-destun Datganoli'.

Chaney, P. (2006). **Made in Wales: A Critical Overview of the Post Devolution Policy Process**. Papur a gyflwynwyd i Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru', Cynhadledd 'Dyfodol Gwleidyddiaeth yng Nghymru'.

Chaney, P. (2009). **Equal opportunities and human rights: The first decade of devolution in Wales**. Adroddiad a Gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Gwelwyd yn:

<https://citeseerx.ist.psu.edu/viewdoc/download?doi=10.1.1.614.6218&rep=rep1&type=pdf>

Chwarae Teg. (2018). **Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb Rhywiol 2018: Cam Un**. Gwelwyd yn: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/06/Adolygiad-Cyflym-o-Gydraddoldeb-Rhywiol-Adroddiad-llawn.pdf>

Chwarae Teg. (2019). **Gwneud nid Dweud: Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru (Cam Dau)**. Gwelwyd yn: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2020/01/Gwneud-nid-dweud-Adolygiad-o-Gydraddoldeb-Rhywiol-yng-Nghymru.pdf>

Cole, A., a Stafford, I. (2015). **"Team Wales": Narratives of Small Country Governance and Constructed Divergence**. Yn Cole, A. a Stafford, I. (gol) *Devolution and Governance: Between Capacity and Constraint*, 27-53. Palgrave Macmillan.

Connell, A. (2019). **Powers and Policy Levers: What works in delivering Welsh Government policies?** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Cyngor Ewrop. (1998). **Gender mainstreaming. Conceptual framework, methodology and presentation of good practices, Final Report of Activities of the Group of Specialists on Mainstreaming**. EG-S-MS (98), 2.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2000a). **Cymru Well**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2000b). **Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru - Cytundeb Partneriaeth Gyntaf CCC**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2001). **Cynllun i Gymru**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2018). **Sesiwn Graffu ar y Cyd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru**. Gwelwyd yn: <https://busnes.senedd.cymru/documents/s80671/Papur%203%20-%20Papur%20tystiolaeth%20gan%20Lywodraeth%20Cymru.pdf>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2019). **Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwelwyd yn: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12453/cr-ld12453-w.pdf>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2020). **Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwelwyd yn: <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12991/cr-ld12991%20-w.pdf>

Dalal-Clayton, B., a Bass, S. (2009). **Challenges of environmental mainstreaming: Experience of integrating environment into development institutions and decisions.** Llundain: Y Sefydliad Rhyngwladol er yr Amgylchedd a Datblygu.

Daly, M. (2005). **Gender Mainstreaming in Theory and Practice.** Social Politics: International Studies in Gender, State & Society, 12(3), 433-450.

Datganiad Beijing. (1995). **Datganiad Pedwaredd Gynhadledd Merched y Byd.** Gwelwyd yn: https://www.un.org/en/events/pastevents/pdfs/Beijing_Declaration_and_Platform_for_Action.pdf.

Day, G. (2006). **Chasing the dragon? Devolution and the ambiguities of civil society in Wales.** Critical Social Policy, 26(3), 642-655.

De Vries, M. S. (2000). **The rise and fall of decentralization: A comparative analysis of arguments and practices in European countries.** European journal of political research, 38(2), 193-224.

Debusscher, P., a Van der Vleuten, A. (2012). **Mainstreaming gender in European Union development cooperation with sub-Saharan Africa: Promising numbers, narrow contents, telling silences.** International Development Planning Review, 34(3), 319-339.

Fleischer, J. (2009). **Power resources of parliamentary executives: Policy advice in the UK and Germany.** West European Politics, 32(1), 196-214.

Gore, T. (2014). **The role of policy champions and learning in implementing horizontal environmental policy integration: Comparative insights from European Structural Fund programmes in the UK.** Administrative Sciences, 4(3), 304-330.

Grace, C. (2016). **Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government.** Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. Gwelwyd yn: http://ppiw.org.uk/files/2014/10/Reducing-Complexity-and-Adding-Value_FINAL-30-Apr.pdf

Greer, S., a Jarman, H. (2008). **Policy Styles and Devolution.** yn Trench, A. (gol) The State of the Nations 2008. Exeter: Imprint Academic, 168-196.

Gupta, J. (2010) **Mainstreaming climate change: a theoretical exploration.** yn Gupta, J. a Ven Der Grijp, N. (gol). Mainstreaming Climate Change in Development Cooperation, 67-96. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Hankivsky, O. (2013). **The lexicon of mainstreaming equality: Gender based analysis (GBA), gender and diversity analysis (GDA) and intersectionality based analysis (IBA)**. Canadian Political Science Review, 6(2-3), 171-183.

Hankivsky, O., de Merich, D., a Christoffersen, A. (2019). **Equalities 'devolved': experiences in mainstreaming across the UK devolved powers post-equality act 2010**. British Politics, 14(2), 141-161.

Head, B., ac Alford, J. (2015). **Problems: Implications for Public Policy and Management**. Administration & Society, 47(6), 711-739.

Howlett, M. (2015). **Policy analytical capacity: The supply and demand for policy analysis in government**. Policy and Society, 34(3-4), 173-182.

Howlett, M. (2019). **The Policy Design Primer: Choosing the Right Tools for the Job**. Llundain: Routledge.

Howlett, M., a J. Rayner. (2018). **Coherence, Congruence and Consistency in Policy Mixes**. Yn M. Howlett ac I. Mukherjee. (gol) Routledge Handbook of Policy Design, 389-403. Efrog Newydd: Routledge.

Jacob, K., a Volkery, A. (2004). **Institutions and instruments for government self-regulation: environmental policy integration in a cross-country perspective**. Journal of Comparative Policy Analysis: Research and Practice, 6(3), 291-309.

Jacob, K., Volkery, A., a Lenschow, A. (2008). **Instruments for environmental policy integration in 30 OECD countries**. Yn Jordan, A. A Lenschow, A. (gol). Innovation in Environmental Policy? Integrating the Environment for Sustainability, 24-48. Cheltenham: Edward Elgar.

Keating, M., Cairney, P., a Hepburn, E. (2009). **Territorial policy communities and devolution in the UK**. Cambridge Journal of Regions, Economy and Society, 2(1), 51-66.

Lambert, D. (1999). **The Government of Wales Act – an act for laws to be ministered in Wales in like form as it is in this realm?** Cambrian Law Review, 30, 60-71.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2003). **Cymru: Gwlad Well**. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2009). **Cynllun Cydraddoldeb Sengl: 31 Mawrth 2009 - 21 Mawrth 2012**. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2010). **Ail Rifyn Canllaw Llunio Polisi Cynhwysol**. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2012). **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion 2012-2016**. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2016). **Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gwelwyd yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynllun-cydraddoldeb-ac-amcanion-2016-2020.pdf>

Llywodraeth Cymru (2020a). **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024: Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gwelwyd yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau yng Nghymru**. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Gwelwyd yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf>

Mazey, S. (2000). **Introduction: Integrating gender - intellectual and 'real world' mainstreaming**. Journal of European Public Policy, 7(3), 333-345.

Morgan, K., a Rees, G. (2001). **Learning by Doing: Devolution and the Governance of Economic Development in Wales**. Yn Chaney, P., Hall, T. a Pithouse, A. (gol) New Governance - New Democracy? Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 126-171.

Nordbeck, R., a Steurer, R. (2016) **Multi-sectoral strategies as dead ends of policy integration: Lessons to be learned from sustainable development**. Environment and Planning C: Government and Policy, 34(4), 737-755.

Nott, S. (2000). **Accentuating the positive: Alternative strategies for promoting gender equality**. Yn Beveridge, F., Nott, S. a Stephen, K. (gol) Making women count: integrating gender into law and policymaking: Routledge, 247-276.

Nunan, F., Campbell, A., a Foster, E. (2012). **Environmental Mainstreaming: The Organisational Challenges Of Policy Integration**. Public Administration and Development, 32(3), 262-277.

O'Flynn, J. L. (2011). **Some practical thoughts on working across boundaries**. State Services Authority and Australia and New Zealand School of Government Occasional Paper, 14.

O'Hagan, A., Christensen, E., Tilley, H., a Nesom, S. (2019). **Tackling Inequality Through Gender Budgeting: Evidence and Models**. Canolfan

Polisi Cyhoeddus Cymru . Gwelwyd yn: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/Tackling-Inequality-Through-Gender-Budgeting.pdf>

O'Hagan, A., Neizert, E., a Carvill, L. (2018). **Gender Budgeting in the UK: Devolution, Divergence and Feminist Tenacity**. Yn O'Hagan, A. A Klatzer, E. (gol) Gender Budgeting in Europe: Developments and Challenges, 293-316. Palgrave Macmillan.

Osborne, K., Bacchi, C., a MacKenzie, C. (2010). **Gender analysis and community participation: The role of women's policy units**. Yn Bacchi, C. ac Eveline, J. (gol) Mainstreaming politics: Gendering practices and feminist theory: Gwasg Prifysgol Adelaide, 191-214.

Ostrom, E. (2012). **Nested externalities and polycentric institutions: must we wait for global solutions to climate change before taking actions at other scales?** Economic theory, 49(2), 353-369.

Parken, A. (2018). **Putting equality at the heart of decision-making**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Putting-equality-at-the-heart-of-decisionmaking-corrected-final.pdf>

Parken, A. (2019). **Improving Well-being and Equality Outcomes: Aligning processes, supporting implementation and creating new opportunities**. Gwelwyd yn: <https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/09/Aligning-and-Improving-Outcomes-for-Well-being-and-Equality.pdf>

Pwyllgor Cyfle Cyfartal. (2004). **Adroddiad ar Brif Ffrydio Cydraddoldeb yng Ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pwyllgor Cyfle Cyfartal. (2007). **Adroddiad Prosiect Adolygu Polisi**. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Quinn, M. (2002). **Evidence based or people based policy making?: A view from Wales**. Public Policy and Administration, 17(3), tud.29-42.

Quinn, S. (2017). **Gender budgeting in Europe: What can we learn from best practice?** Administration, 65(3), 101-121.

Rabey, T. (2015). **Connection, Coherence and Capacity: Policy Making in Smaller Countries**, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. Gwelwyd yn: <https://www.wcpp.org.uk/publication/connection-coherence-and-capacity-policy-making-in-smaller-countries/>

Rees, T. (2002). **The Politics of 'Mainstreaming' Gender Equality**. Yn Breitenbach, E., Brown, A., Mackay, F., a Webb, J. (gol) The Changing

Politics of Gender Equality in Britain. Llundain: Palgrave Macmillan, tud. 45-69.

Rees, T. L., a Chaney, P. (2011). **Multilevel governance, equality and human rights: evaluating the first decade of devolution in Wales**. Social Policy and Society, 10(2), 219-228.

Royles, E. (2007). **Revitalising democracy? Devolution and civil society in Wales**. Gwasg Prifysgol Cymru.

Runhaar, H., Wilk, B., Persson, Å., Uittenbroek, C., a Wamsler, C. (2018). **Mainstreaming climate adaptation: taking stock about “what works” from empirical research worldwide**. Regional environmental change, 18(4), 1201-1210.

Sauer, A. T. (2018). **Equality Governance via Policy Analysis?: The Implementation of Gender Impact Assessment in the European Union and Gender-based Analysis in Canada**. transcript Verlag.

Schout, A., a Jordan, A. (2008). **Administrative Instruments**. Yn Jordan, A. a Lenschow, A. (gol) Innovation in Environmental Policy? Edwards Elgar, 49-69.

Schout, A., Jordan, A., a Twena, M. (2010). **From ‘old’ to ‘new’ governance in the EU: Explaining a diagnostic deficit**. West European Politics, 33(1), 154-170.

Sefydliad Cydraddoldeb Rhywiol Ewrop. (2016). **Institutional Transformation: Gender Mainstreaming Toolkit**. Gwelwyd yn:
<https://eige.europa.eu/publications/institutional-transformation-gender-mainstreaming-toolkit>

Senedd Cymru. (2021). **Gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-2022**. Caerdydd: Senedd Cymru. Gwelwyd yn:
<https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12991/cr-ld12991%20-w.pdf>

Squires, J. (2005). **Is mainstreaming transformative? Theorizing mainstreaming in the context of diversity and deliberation**. Social Politics: International Studies in Gender, State & Society, 12(3), 366-388.

Squires, J., a Wickham-Jones, M. (2004). **New Labour, gender mainstreaming and the Women and Equality Unit**. The British Journal of Politics and International Relations, 6(1), 81-98.

Steccolini, I. (2019). **New development: Gender (responsive) budgeting—a reflection on critical issues and future challenges**. Public Money & Management, 39(5), 379-383.

Widmer, A. (2018). **Mainstreaming climate adaptation in Switzerland: how the national adaptation strategy is implemented differently across sectors.** Environmental Science & Policy, 82, 71-78.

Williams, C. (2001). **Can mainstreaming deliver? The equal opportunities agenda and the National Assembly for Wales.** Contemporary Wales, 14(1), 57-79.

Wu, X., Ramesh, M., a Howlett, M. (2015). **Policy capacity: A conceptual framework for understanding policy competences and capabilities.** Policy and Society, 34(3-4), 165-171.

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. (2018). **OECD Toolkit for Mainstreaming and Implementing Gender Equality.** Gwelwyd yn: <https://www.oecd.org/gov/toolkit-for-mainstreaming-and-implementing-gender-equality.pdf>.

Yamin, F. (2005). **The European Union and future climate policy: Is mainstreaming adaptation a distraction or part of the solution?** Climate Policy, 5(3), 349-361.

Manylion am yr Awdur

Mae **Findlay Smith** yn ei ail flwyddyn Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ymchwilio i integreiddio a phrif ffrydio polisi mewn llywodraethau is-wladwriaethol. Rhwng Ionawr 2021 a Mawrth 2021 fe ymgwymerodd Findlay ag Interniaeth Doethuriaeth yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, yn edrych ar offer polisi Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun prif ffrydio cydraddoldeb.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Dr Andrew Connell

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

andrew.connell@wcpp.org.uk

OGI Trwyddedir yr adroddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

OGI This report is licensed under the terms of the Open Government License